Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GSR

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:
4/2020
DYDDIAD CYHOEDDI:
07/01/2020

# Adolygiad Annibynnol o ddarpariaeth Iaith Arwyddion Prydain (BSL) i Oedolion yng Nghymru

OGL © Hawlfraint y Goron
ISBN digidol 978-1-83933-822-9

Adolygiad Annibynnol o ddarpariaeth Iaith Arwyddion Prydain (BSL) i Oedolion yng Nghymru

Awduron: Rhodri Bowen a Dr Duncan Holtom

Pobl & Gwaith | People & Work

Bowen R, Holtom D (2020). *Adolygiad Annibynnol o ddarpariaeth Iaith Arwyddion Prydain (BSL) i Oedolion yng Nghymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, adroddiad GSR rhif 4/2020.

Ar gael yn: https://llyw.cymru/adolygiad-annibynnol-o-ddarpariaeth-iaith-arwyddion-prydain-bsl-i-oedolion-yng-nghymru

Safbwyntiau'r ymchwilydd ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Claire Maxwell
Addysg a Sgiliau ôl-16
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Ffôn: 0300 062 5597
E-bost: Post16PlanningandFunding@llyw.cymru

**Cydnabyddiaeth**

Diolch i'r 35 o randdeiliaid a roddodd o'u hamser i gyfrannu at yr adolygiad hwn, ac i Helen Scaife a Richard Self yn Llywodraeth Cymru, am gomisiynu'r adolygiad a darparu cyflwyniadau, gwybodaeth a mewnwelediad.

Diolch i John Fuery a Rachel Lloyd yn Llywodraeth Cymru am ddadansoddi a darparu data o Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru.

Diolch hefyd i aelodau eraill y tîm adolygu – Hibah Iqbal, Val Williams a Sarah Lloyd-Jones

**Cynnwys**

1. Cyflwyniad ........ 6
2. Ymagwedd, dulliau a chasglu data ........ 14
3. Darpariaeth Dysgu Iaith Arwyddion Prydain ........ 18
4. Y galw am ddarpariaeth BSL ........ 31
5. Dichonoldeb dynodi BSL yn sgil cyfathrebu hanfodol ........ 37
6. Casgliadau ........ 45
7. Argymhellion ........ 47
8. Llyfryddiaeth ........ 49

**Rhestr o Dablau**


Tabl 2.1. Canlyniadau chwiliadau a sifft ..... 15
Tabl 2.2. Sampl a gyflawnwyd drwy'r arolygon ffôn ..... 17
Tabl 3.1. Darpariaeth BSL yng Nghymru a gyllidwyd gan Lywodraeth Cymru (2014/15-2017/18) ..... 19
Tabl 3.2. Gweithgarwch BSL a gyllidir gan Lywodraeth Cymru yn ôl domisil y dysgwr (lle mae data ar gael) a phoblogaeth yr ALl ..... 21
Tabl 3.3. Cyfran y cyrsiau a gyllidwyd yn llawn, a gyllidwyd yn rhannol neu heb eu cyllido gan Lywodraeth Cymru ..... 22
Tabl 3.4. Swm y gweithgarwch BSL a gyllidwyd gan Lywodraeth Cymru (2016/17-2017/18). ..... 24
Tabl 3.5. Rhywedd dysgwyr BSL sy'n oedolion (2016/17-2017/18) (%) ..... 26
Tabl 3.6. Oedran y dysgwyr BSL (2016/17-2017/18) (%) ..... 26
Tabl 3.7. Y ddarpariaeth yn ôl darparwr ..... 28
Tabl 4.1. Trothwyon ar gyfer gwahanol lefelau o golli clyw ..... 31
Tabl 4.2. Yr amcangyfrif o'r bwlch rhwng nifer presennol y dysgwyr sy'n rhieni neu'n ofalwyr a'r rhai sy'n gymwys i ddysgu BSL, yn seiliedig ar amcangyfrif isel ac uchel. ..... 34
Tabl 5.1. Amcangyfrif o'r gwahaniaeth rhwng nifer presennol y dysgwyr sy'n rhieni neu ofalwyr ar lefelau 1 a 2 a nifer y dysgwyr sy'n rhieni neu ofalwyr a fyddai'n gymwys pe bai BSL yn cael ei dynodi'n sgil cyfathrebu hanfodol ..... 42
Tabl 5.2. Amcangyfrif o gyfanswm y gost fesul dysgwr ar gyfer cwrs lefel 1 a 2 ..... 43
Tabl 5.3. Amcangyfrif o'r gost o ddynodi BSL yn sgil hanfodol ..... 43

**Crynodeb o acronymau**

| | |
|---|---|
| ABSLTA | Cymdeithas Athrawon ac Aseswyr Iaith Arwyddion Prydain |
| ACL | Dysgu Oedolion yn y Gymuned |
| BSL | Iaith Arwyddion Prydain |
| BDA | Cymdeithas Pobl Fyddar Prydain |
| BATOD | Cymdeithas Brydeinig Athrawon Pobl Fyddar |
| CAVC | Coleg Caerdydd a'r Fro |
| GDC | Grant Dysgu Cymunedol |
| CRIDE | Consortiwm Ymchwil mewn Addysg i'r Byddar |
| DWP | Adran Gwaith a Phensiynau |
| FSL | Iaith Arwyddion i'r Teulu |
| SAB | Sefydliad Addysg Bellach |
| GIRFEC | Gwneud Pethau'n Iawn i Bob Plentyn |
| MT | Meddyg Teulu |
| ALI | Awdurdod Lleol |
| LLWR | Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru |
| NDCS | Cymdeithas Genedlaethol Plant Byddar |
| GIG | Gwasanaeth Iechyd Gwladol |
| CNPT | Castell-nedd Port Talbot |
| CLG | Cytundebau Lefel Gwasanaeth |
| CCUHP | Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn |
| DU | Y Deyrnas Unedig |
| WEFO | Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru |
| LlC | Llywodraeth Cymru |

**Nodyn ar yr iaith a ddefnyddir**

Yn unol â Chynllun Cenedlaethol Iaith Arwyddion Prydain Llywodraeth yr Alban (Llywodraeth yr Alban, 2017), lle bynnag rydym yn cyfeirio at “ddefnyddwyr BSL” rydym yn golygu pobl F/fyddar a/neu bobl fyddar a dall (y rhai sy'n derbyn yr iaith ar ffurf gyffyrddol oherwydd colli golwg) y mae Iaith Arwyddion Prydain (BSL) yn iaith gyntaf neu'n ddewis iaith iddynt.

Defnyddir Byddar - gyda phriflythyren "B" i gyfeirio at bobl sy'n nodi eu hunain fel rhan o'r Gymuned Fyddar ac sydd fel arfer yn defnyddio BSL. Rydym yn defnyddio'r term “B/byddar a Byddar a dall” fel disgrifiad cynhwysol o bobl fyddar a allai fod yn defnyddio BSL a/neu yn dymuno ei dysgu.

# 1. Cyflwyniad

**Iaith Arwyddion Prydain**

1.1. Iaith Arwyddion Prydain (BSL) yw iaith gyntaf neu ddewis iaith llawer o bobl F/fyddar a Byddar a dall yn y DU. Mae’n iaith lle a symudiad gan ddefnyddio'r dwylo, y corff, yr wyneb a'r pen. Mae llawer o ddefnyddwyr BSL yn bobl Fyddar[1] y mae iaith arwyddion yn iaith gyntaf ac yn iaith o ddewis iddynt.

*Defnyddwyr BSL yng Nghymru*

1.2. Nodir bod cyfanswm o tua 7,500 o bobl sy'n defnyddio BSL yng Nghymru, y mae tua 4,000 ohonynt yn F/fyddar (Cymdeithas Pobl Fyddar Prydain, d.d.). Nid yw’n bosibl rhoi ffigur pendant gan nad yw'r data o ffynonellau gwahanol yn gyson; er enghraifft:

- Nododd 1,138 o bobl yng Nghymru mai BSL oedd y “brif iaith a siaredir gartref” yng Nghyfrifiad 2011. Fodd bynnag, nodwyd bod hyn wedi'i feirniadu gan y gymuned Fyddar, ac felly credir ei fod yn amcangyfrif rhy isel.
- Yn hytrach na gofyn pa un oedd y brif saith a siaredir gartref, gofynnodd cyfrifiad yr Alban am ieithoedd a siaredir gartref heblaw Saesneg, a nododd gyfran sylweddol uwch o ddefnyddwyr BSL (tua 0.23 y cant o'r boblogaeth o gymharu â 0.03 y cant yng Nghymru a Lloegr).
- Yn Lloegr, amcangyfrifodd Arolwg Cleifion Meddyg Teulu yr Adran Iechyd (NHS Lloegr, 2016) fod 122,000 o bobl F/yddar yn y DU (tua 0.18 y cant o'r boblogaeth) (BDA, 2014).

1.3. Byddai amcangyfrifon sy'n seiliedig ar Gyfrifiad yr Alban a data'r Arolwg Cleifion Meddyg Teulu yn Lloegr yn golygu bod poblogaeth BSL Cymru tua 5,600-7,300 o bobl (gan dybio bod 0.18-0.23 y cant o boblogaeth Cymru yn ddefnyddwyr BSL).

[1] Defnyddir Byddar - gyda phriflythyren "B" i gyfeirio at bobl sy'n nodi eu hunain fel rhan o'r Gymuned Fyddar ac sydd fel arfer yn defnyddio BSL.

*Darpariaeth ddysgu BSL ôl-19*

1.4. Mae'r Gymdeithas Genedlaethol Plant Byddar (NDCS) yn nodi bod 90 y cant o blant byddar yn cael eu geni i rieni sy'n gallu clywed heb brofiad blaenorol o fyddardod[2] (CRIDE, 2018). Yn hynny o beth, gall dysgu bod eu plentyn yn fyddar fod yn amser emosiynol a dryslyd i rieni a gofalwyr plant byddar. Efallai y bydd rhai o'r plant hyn yn dewis dysgu BSL fel eu prif ddull o gyfathrebu, ac er mwyn i'w teuluoedd allu cyfathrebu'n effeithiol â nhw, bydd angen iddynt ddysgu a defnyddio BSL eu hunain. Mae'n rhesymol tybio mai ychydig iawn o'r rhieni hyn sy'n gallu clywed a fydd yn rhugl mewn BSL, neu yn wir yn meddu ar unrhyw ddealltwriaeth o BSL, ac **os** na all rhieni a brodyr a chwiorydd ddefnyddio BSL, mae plant yn ynysig ac mae teuluoedd yn cael trafferth cyfathrebu. Mae caffael iaith yn ystod pum mlynedd gyntaf bywyd yn hanfodol, ac yn aml dyma'r cyfnod pwysicaf ym mywyd plentyn i'w rhieni neu ofalwyr ddysgu BSL (Cormier et al., 2012; Kuhl, 2010).

1.5. Felly mae'r adolygiad hwn yn canolbwyntio ar y ddarpariaeth i oedolion, a ddiffinnir at ddibenion yr astudiaeth hon fel y rhai 19 oed a hŷn (yn unol â chyllid dysgu oedolion ôl-19), sy'n dymuno dysgu BSL er mwyn cyfathrebu â phlentyn Byddar neu, er enghraifft, partner neu berthynas sy'n oedolyn.

**Cyd-destun polisi**

1.6. Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb (2010)[3] yn diogelu pobl rhag triniaeth annheg (gwahaniaethu) oherwydd eu hanabledd. Mae pobl sy'n Fyddar ac yn defnyddio BSL wedi'u diogelu gan y Ddeddf rhag triniaeth annheg. Mae'r Ddeddf yn gosod cyfrifoldebau cyfreithiol ar wasanaethau cyhoeddus a phreifat sy'n cyflawni swyddogaethau cyhoeddus, i ddiogelu'r rhai sydd ag anabledd rhag gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth, sy'n cynnwys yr hawl i ddefnyddio dehonglwyr BSL/Saesneg ac i dderbyn mynediad cyfartal i wasanaethau yng Nghymru.

1.7. Mabwysiadwyd Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yn ffurfiol gan Lywodraeth Cymru i roi egwyddorion sylfaenol ar gyfer ymdrin â phlant, mewn dadl yn y cyfarfod llawn ar 14 Ionawr 2004. Yn 2011,

[2] Cyfeirir at yr ystadegyn hwn yn eang yn y llenyddiaeth, er ei bod yn anodd nodi sut y caiff ei gyfrifo.
[3] Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb (2010)

Cymru oedd y wlad gyntaf yn y DU i wneud CCUHP yn rhan o'i chyfraith ddomestig (Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011). Mae'r CCUHP yn darparu ar gyfer cefnogi teuluoedd â phlant B/byddar i ddysgu iaith arwyddion fel un o hawliau plant ag anableddau, "er mwyn i rieni a brodyr a chwiorydd allu cyfathrebu ag aelodau o'r teulu sydd ag anableddau." (CCUHP, 2007, t.11).

**Cyllid a chynllunio dysgu ôl-19**

1.8. Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid i awdurdodau lleol ar gyfer darpariaeth dysgu oedolion yn y gymuned (ACL), fel BSL, i oedolion 19 oed a hŷn. Disgwylir i ddarparwyr "nodi a mynd i'r afael ag anghenion eu cymunedau lleol" ac "wrth wneud hyn ….blaenoriaethu'r meysydd allweddol canlynol â phwys cenedlaethol":

- Sgiliau hanfodol i helpu pobl i "gael mynediad i gyfleoedd gwaith neu i wneud cynnydd mewn cyflogaeth" - "sgiliau cyfathrebu hanfodol a defnydd hanfodol o sgiliau rhif", sydd am ddim i bob dysgwr "hyd at lefel weithredol".
- Sgiliau digidol.
- Sgiliau cyflogadwyedd.
- Darpariaeth ar gyfer "dysgwyr hŷn ac ymgysylltu cymdeithasol".
- "Gweithgarwch ymgysylltu a chyrsiau 'bachyn'".[4]
- Darpariaeth cyfrwng Cymraeg (LIC, 2017).

1.9. Mae darpariaeth ACL yn cael ei chynllunio a'i chyflawni gan 15 o Bartneriaethau ACL[5] sy'n gweithredu amrywiaeth o fodelau darparu gwahanol gan gynnwys:

- Darpariaeth gan awdurdodau lleol drwy'r Grant Dysgu Cymunedol (GDC).
- Darpariaeth gan sefydliadau addysg bellach (SAB).
- Darpariaeth gan awdurdodau lleol drwy gytundeb rhyddfraint gyda cholegau.
- Darpariaeth gan golegau drwy Gytundebau Lefel Gwasanaeth a Fframweithiau Comisiynu gydag awdurdodau lleol.

1.10. Mae gwasanaethau cyhoeddus yn wynebu heriau sylweddol o ganlyniad i gyni. Er gwaethaf dyraniadau cyllidebol ychwanegol i sefydliadau addysg bellach i helpu i liniau'r pwysau ar y sector, maent yn wynebu setliad ariannol heriol iawn; er

[4] Mae hyn yn cefnogi'r "ddarpariaeth o weithgarwch ymgysylltu ysgafnach fel dull o ddenu dysgwyr a fyddai'n oedi cyn cymryd rhan fel arall" (Llywodraeth Cymru, 2017a, t.7).

[5] Mae'r partneriaethau yn dod ag awdurdodau lleol, SAB, Cymdeithas Addysg y Gweithwyr (WEA), Coleg Cymunedol YMCA Cymru, a mudiadau gwirfoddol eraill y trydydd sector at ei gilydd.

enghraifft, gostyngodd y cyllid ar gyfer darpariaeth addysg bellach ran-amser yng Nghymru dros 70 y cant mewn termau real rhwng 2013/14 a 2016/17 (Champion, 2018).

**Mynediad i ddarpariaeth BSL i deuluoedd yn y DU**

1.11. Yn 2017, nododd Comisiynydd Plant Cymru, er bod Llywodraeth Cymru yn cydnabod BSL fel iaith drwy ei rhinwedd ei hun, nid oes digon o adnoddau ar gael i sicrhau y gall aelodau o'r teulu ddysgu defnyddio BSL (Comisiynydd Plant Cymru, 2017).

1.12. Yn Lloegr, canfu adolygiad marchnad gan yr Adran Gwaith a Phensiynau o ddarpariaeth BSL a chyfathrebu yn y DU fod y cymorth a ddarperir gan awdurdodau lleol yn Lloegr yn aml yn anghyson, gyda bylchau amlwg. Canfu arolwg yn 2011 gan NDCS o sampl ar hap o 80 o awdurdodau lleol, i ymchwilio i'r ddarpariaeth o gymorth iaith arwyddion i deuluoedd, nad oedd dros hanner y 70 o awdurdodau lleol (56 y cant) a ymatebodd yn darparu unrhyw gymorth na gwasanaethau i rieni plant byddar sy'n dymuno dysgu iaith arwyddion (Yr Adran Gwaith a Phensiynau, 2017).

1.13. Yn yr Alban, mae'r Cynllun Cenedlaethol BSL (2017-23) (Llywodraeth yr Alban, 2017) yn nodi camau gweithredu i helpu defnyddwyr B/byddar/Byddar a dall. Mae hyn yn cynnwys y nod hirdymor, y bydd y dull “Gwneud Pethau'n Iawn i Bob Plentyn” (GIRFEC) yn cael ei ymgorffori'n llawn, gyda phlentyn B/byddar neu Fyddar a dall a'i deulu “yn cael cynnig y wybodaeth a'r cymorth cywir ar yr adeg gywir i ymgysylltu â BSL” (ibid, t.10). Mae'r dull GIRFEC wedi'i amlinellu ymhellach yn y testun yn y blwch isod.

**Dull Gwneud Pethau'n Iawn i Bob Plentyn yn yr Alban**

Gan ategu'r dull GIRFEC, "erbyn 2020 bydd Gweinidogion yr Alban yn:

Gwella mynediad i wasanaethau'r blynyddol cynnar i rieni y rhoddir diagnosis bod ganddynt blentyn B/fyddar neu'n Fyddar a dall drwy ddatblygu gwybodaeth am BSL a diwylliant Byddardod i ddefnyddwyr gwasanaethau sy'n cynorthwyo rhieni, fel ymwelwyr iechyd.

Cynorthwyo teuluoedd plant B/byddar a Byddar a dall drwy sicrhau bod ganddynt fynediad i adnoddau BSL mor gynnar â phosibl ym mywyd eu plentyn. Bydd hyn yn cynnwys ymgynghori â defnyddwyr BSL a rhanddeiliaid eraill i asesu'r llwyfannau digidol mwyaf priodol ar gyfer cyfeirio a lledaenu gwybodaeth.

Datblygu adnoddau a chyngor BSL o fewn rhaglenni allweddol, fel "BookBug", fel y gellir cynorthwyo rhieni i ryngweithio â'u plentyn yn ystod y cyfnod datblygiadol allweddol hwn.

Gweithio gyda phartneriaid i benderfynu ar y ffordd orau o alluogi teuluoedd a gofalwyr i ddysgu BSL fel eu bod yn gallu cyfathrebu'n effeithiol â'u plentyn B/byddar neu Fyddar a dall yn ystod y blynyddoedd cynnar hollbwysig (0-8 oed).

Profi dull newydd o gynorthwyo plant a phobl ifanc B/byddar a Byddar hŷn (8 oed a hŷn), a'u teuluoedd i ddysgu BSL.

Sicrhau bod plant a/neu rieni/gofalwyr sy'n defnyddio BSL yn gallu cael budd o'r Gronfa Gynhwysiant newydd gwerth £2m, fel rhan o'r cynnydd mewn darpariaeth dysgu cynnar a gofal plant."

*Addaswyd o Lywodraeth yr Alban, 2017, t.11*

**Prosiectau peilot nodedig i wella mynediad teuluoedd i BSL**

1.14. Cafodd Batterbury et al. (2010) eu comisiynu gan yr adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd (fel y'i gelwid bryd hynny) yn Lloegr i werthuso cynllun peilot I-Sign. Nod cynllun peilot I-Sign oedd gwella darpariaeth a statws BSL i deuluoedd plant a phobl ifanc B/byddar ac sydd â nam ar eu clyw. Roedd y cynllun peilot yn

cynnwys consortiwm o saith sefydliad[6] a dwy ganolfan ranbarthol[7]; a chanolbwyntiodd ei ffrwd waith cyntaf ar gynyddu “ymwybyddiaeth o Iaith Arwyddion Prydain a dewis i deuluoedd â phlant byddar ac â nam ar eu clyw i ddysgu a chyfathrebu gan ddefnyddio BSL”. Fel rhan o hyn, datblygodd yr NDCS y Cwricwlwm Iaith Arwyddion i'r Teulu (FSLC), sy'n canolbwyntio ar deuluoedd ac sy'n addysgu themâu a geirfa berthnasol. Mae ei ddull cyfannol yn darparu ar gyfer teuluoedd drwy amseru, lleoliadau, adnoddau ar-lein, cyfleusterau crèche, a heb gost.

1.15. Dangosodd gwerthusiad Batterbury et al (2010) o'r cynllun peilot fod rhieni sy'n cymryd rhan yn I-Sign wedi gwella yn eu gallu i arwyddo o gymharu â'r rhai sy'n dysgu mewn cyrsiau lefel 1. Yn ogystal, nodwyd bod ganddynt fwy o hyder a llai o achosion o ddiffyg cyfathrebu. Cyfanswm y gwariant ar gyfer Ffrwd Waith 1 ar draws y tair blynedd ar gyfer pob sefydliad dan sylw oedd £276,998. Rhoddodd yr awduron ddadansoddiad manwl o'r gwariant drwy rannu'r gost fesul gweithgaredd a chyfrifo amcangyfrif o gyfanswm y gost fesul teulu a ddefnyddiai FSLC ar draws tair blynedd, sef £1,847. Nodwyd y gellid gostwng hyn i £396, er enghraifft, os caiff cost y DVD a'r wefan ei ffactorio allan; fodd bynnag, yn realistig mae'r gost wirioneddol yn debygol o fod rhwng y ddau amcangyfrif. Gwnaethant hefyd nodi bod cyrsiau yn y cynllun peilot yn rhy fyr, yn gyfyngedig i nifer bach o ranbarthau daearyddol, ac nad oeddent yn cynnig cyrsiau dilynol. Daeth y gwerthusiad i'r casgliad bod y cyrsiau yn cael derbyniad da ac y dylid eu hymestyn ar draws y DU ond bod angen mwy o gyllid i gefnogi nifer uwch o diwtoriaid cymwys a sicrhau bod y cyrsiau am ddim i bawb. Oherwydd y diffyg rhaglenni cymaradwy (a diffyg gwerthusiadau o raglenni), nid yw'n bosibl dweud a fyddai costau a chanlyniadau'r cynllun peilot yn cael eu hailadrodd pe bai'n cael ei gyflwyno yng Nghymru, er enghraifft.

---

[6] Roedd y pum partner yn cynnwys y Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Fyddar a Thrwm eu Clyw (RNID), y Gymdeithas Genedlaethol Plant Byddar (NDCS), Cyngor ar gyfer Datblygu Cyfathrebu â Phobl Fyddar (SIGNATURE), Cymdeithas Pobl Fyddar Prydain (BDA), Prifysgol Canol Swydd Gaerhirfryn (UCLAN),

[7] Academi Frenhinol Addysg i'r Byddar Caerwysg (ERADE) a Chymdeithas Pobl Fyddar Glannau Mersi (MDPS).

*Cwricwlwm Iaith Arwyddion i'r Teulu NDCS*

1.16. Mae'r NDCS yn cynnig cwricwlwm unigryw o iaith arwyddion i'r teulu (FSL) sy'n addysgu BSL mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar y plentyn (iaith sy'n briodol ac yn berthnasol i fywyd bob dydd plant). Mae eu gwasanaeth Eich Plentyn, Eich Dewisiadau, yn darparu iaith arwyddion i'r teulu mewn ardaloedd penodol. Yn 2014, treialodd NDCS fodel 1:1 ar gyfer teuluoedd "nas clywir yn aml" a chanfuwyd ei fod yn cael effaith sylweddol ar y rhai nad oeddent yn gallu mynychu cwrs grŵp oherwydd eu bod yn ynysig yn ddaearyddol a/neu wedi'u cyfyngu gan safbwyntiau aelodau hŷn o'r teulu (Senedd yr Alban, 2015).

**Nod a chwestiynau ymchwil ar gyfer yr adolygiad hwn a strwythur yr adroddiad**

1.17. O ystyried y cyd-destun hwn, nod yr adolygiad hwn yw:

> "…darparu tystiolaeth annibynnol ar y ddarpariaeth a'r galw presennol am ddysgu BSL i oedolion fel y'i cyflwynir gan awdurdodau lleol a sefydliadau addysg bellach yng Nghymru. Bydd yr ymchwil hon yn llywio'r gwaith o wneud penderfyniadau yn y dyfodol, gan gynnwys yn benodol a ddylid ystyried bod BSL yn Sgil Cyfathrebu Hanfodol (yn unol â Llythrennedd a Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill)."

1.18. O ystyried y nod hwn, nodwyd nifer o feysydd y tu allan i gwmpas yr adolygiad hwn (ac felly ni chawsant eu hystyried):

- Darpariaeth BSL mewn ysgolion a dosbarthiadau chwech (fel y nodwyd uchod, roedd y ffocws ar "oedolion", h.y. dysgu ôl-19).
- Darpariaeth BSL ôl-19 ar gyfer pobl F/fyddar (gan fod yr adolygiad yn canolbwyntio ar BSL i bobl sydd angen cyfathrebu â phobl F/fyddar).
- Hyfforddiant i ddehonglwyr a staff cymorth, fel cynorthwywyr addysgu.
- Mynediad i wasanaethau, darparu gwasanaethau, a chyfrifoldebau gwasanaethau i hyfforddi eu staff eu hunain.

1.19. Yn dilyn yr adran ragarweiniol hon, mae adran 2 yn amlinellu dull a methodoleg yr adolygiad.

1.20. Mae adran 3 yr adroddiad yn mynd i'r afael â saith cwestiwn yr adolygiad am ddarpariaeth BSL bresennol:

- Pa lefelau o BSL sy'n cael eu darparu i oedolion yng Nghymru ar hyn o bryd?

- Sut y mae BSL yn cael ei ddarparu (dosbarthiadau neu ar-lein neu'r ddau)?
- Beth yw cost darparu BSL yng Nghymru?
- Faint o ddarpariaeth ddysgu BSL sy'n cael ei chyllido ar hyn o bryd (yn gyfan neu'n rhannol) gan Lywodraeth Cymru?
- Faint sy'n cael ei gyllido drwy adennill costau llawn, a faint y mae'n costio i'r dysgwr fynychu?
- Pwy yw'r dysgwyr, a beth yw eu cymhellion ar gyfer dysgu?
- Pa gymorth cyllido sydd gan ddysgwyr BSL fynediad iddo ar hyn o bryd; a chan bwy?

1.21. Mae adrannau 4 a 5 yr adroddiad yn mynd i'r afael â phum cwestiwn yr adolygiad am ddarpariaeth bosibl, gan gynnwys dichonoldeb dynodi BSL yn “sgil hanfodol”:

- Pa alw sydd am ddarpariaeth BSL i oedolion yng Nghymru, p'un a yw hyn wedi'i achredu ai peidio?
- Pa ffactorau sy'n hwyluso'r galw neu'n gweithredu fel rhwystr ar gyfer y galw?
- Pe bai Llywodraeth Cymru yn ystyried bod BSL yn sgil cyfathrebu hanfodol ac felly, yn cyllido'r ddarpariaeth hyd at Lefel 1 (yn unol â chyllid sgiliau hanfodol eraill), faint fyddai hyn yn ei gostio'n flynyddol o bosibl?
- Pa feini prawf cymhwystra y byddai angen eu cyflwyno (os o gwbl) er mwyn sicrhau mai dim ond yr oedolion hynny ag angen hanfodol a nodwyd ar gyfer BSL a fyddai â hawl i ddarpariaeth am ddim?
- A oes digon o diwtoriaid yng Nghymru i allu cefnogi ymrwymiad o'r fath pe bai ar gyfer dosbarthiadau mewn person?

## 2. Ymagwedd, dulliau a chasglu data

2.1. Defnyddiwyd ymagwedd dulliau cymysg gan gynnwys arolygon, cyfweliadau ac ymchwil desg i gasglu data ansoddol a meintiol.

**Chwiliad llenyddiaeth o'r ddesg**

2.2. Diben y chwiliad llenyddiaeth o'r ddesg oedd nodi ac adolygu'r ymchwil a'r wybodaeth bresennol am y galw a'r cyflenwad o ran darpariaeth BSL i oedolion (19 oed a hŷn) yn y DU. Roedd hefyd yn cynnwys mapio'r fframwaith cyfreithiol fel Deddf Cydraddoldeb 2010, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP), ac ystyried unrhyw elfennau tebyg i'r Gymraeg. Roedd yr adolygiad yn cynnwys chwiliad systematig o ffynonellau academaidd a "llwyd" (heb eu cyhoeddi).

2.3. Datblygwyd protocol chwilio gan amlinellu'r canlynol:

- Y meini prawf ar gyfer cynnwys ai peidio.
- Y ffynonellau a fydd yn cael eu chwilio, fel cyfnodolion, gwefannau a chronfeydd data electronig.
- Sut y bydd ffynonellau'n cael eu chwilio gan gynnwys, er enghraifft, y termau chwilio i'w defnyddio, ac unrhyw derfynau ar chwiliadau.
- Y broses adolygu, gan gynnwys manylion am sut y bydd eitemau (fel erthyglau cyfnodolion neu adroddiadau) a nodwyd drwy chwiliadau yn cael eu sifftio ac yna, os yw'n berthnasol, eu hadolygu.

2.4. Y meini prawf ar gyfer cynnwys oedd:

- Perthnasedd: rhaid i'r eitem gynnwys ymchwil neu wybodaeth am y galw a'r cyflenwad presennol a phosibl o ran darpariaeth ddysgu BSL ôl-16 yn y DU.
- Amseroldeb: dim ond eitemau a gyhoeddwyd yn y pymtheg mlynedd diwethaf (2003-2018) a gafodd eu cynnwys.
- Ieithoedd: dim ond eitemau a gyhoeddwyd yn yr iaith Saesneg a gafodd eu cynnwys.

2.5. Y ffynonellau a chwiliwyd oedd:

- JSTOR a Google scholar i nodi llenyddiaeth academaidd.
- Google, i nodi deunydd "llwyd" heb ei gyhoeddi, fel gwerthusiadau o ddarpariaeth BSL.

2.6. Roedd y termau chwilio yn llinynnau o dermau chwilio: Research OR data OR information AND “post 16 education” OR college OR “further education” OR “adult learning” OR “adult education” OR “community learning” AND Deaf OR BSL OR “British Sign Language”.

2.7. Defnyddiwyd sifft dau gam i nodi eitemau a oedd yn bodloni'r meini prawf ar gyfer cynnwys ac a gynhwyswyd yn yr adolygiad. Mae tabl 2.1. yn amlinellu canlyniadau chwiliadau a'r sifft.

**Tabl 2.1. Canlyniad chwiliadau a sifft**

| Ffynhonnell | # eitemau a nodwyd gan chwilwyr | # eitemau yn cynnwys ar ôl y sifft |
|---|---:|---:|
| Google | 149 | 31 |
| Google Scholar | 999 | 6 |
| JSTOR | 369 | 1 |

2.8. Ychydig iawn o ddeunydd perthnasol a nodwyd ar y galw a/neu'r cyflenwad ar gyfer darpariaeth ddysgu ôl-19 a'r fframwaith cyfreithiol. O'r 38 o erthyglau a gynhwyswyd (h.y. a oedd yn bodloni'r meini prawf ar gyfer cynnwys a amlinellwyd uchod), barnwyd bod 19 yn berthnasol ond nid yn cyfateb yn uniongyrchol, a dim ond 14 a oedd yn cynnwys digon o ddeunydd perthnasol a defnyddiol a oedd yn werth ei ddyfynnu yn yr adroddiad hwn. Cafwyd deunydd ychwanegol drwy ddilyn cyfeiriadau a nodwyd mewn llenyddiaeth o'r chwiliad gwreiddiol ac o chwiliadau ychwanegol, wedi'u targedu a oedd yn canolbwyntio ar y fframwaith cyfreithiol a'r ddarpariaeth yng ngwledydd eraill y DU. Mae'r diffyg deunydd a nodwyd gan y chwiliad yn adlewyrchu cylch gwaith cymharol gul yr adolygiad. Roedd y rhan fwyaf o'r llenyddiaeth a nodwyd gan y chwiliadau (ond heb eu cynnwys) yn canolbwyntio ar ddarpariaeth BSL i bobl F/fyddar eu hunain neu hyfforddiant i ddehonglwyr neu gynorthwywyr addysgu, a oedd yn amlwg y tu allan i'r cwmpas.

### Adolygiad desg o ddata Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru

2.9. Diben yr adolygiad desg o ddata Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR) oedd nodi:

- Pa ddarpariaeth BSL sy'n cael ei chyllido gan Lywodraeth Cymru (gan gynnwys: y math o ddarpariaeth (e.e. amser llawn/rhan-amser, y lefel, a yw

dysgwyr yn cyfrannu at ffioedd; a chyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer y cwrs, fel dangosydd cost).

- Lle mae'r ddarpariaeth BSL honno yn cael ei darparu (yn ôl darparwr ac ardal awdurdod lleol hefyd).
- Nifer a phroffil y dysgwyr (e.e. o ran rhywedd, cod post cartref ac awdurdod lleol y dysgwr a'r anabledd (os o gwbl)).

2.10. Mae’r data yn defnyddio'r ddwy flynedd academaidd ddiwethaf (2016/17 a 2017/18). Er y darparwyd data ar gyfer cyfnodau cynharach, mae gwahaniaethau o ran cyllid yn 2015/16 a 2014/15 yn ei gwneud yn anodd cymharu â'r cyfnod presennol (h.y. 2016/17 a 2017/18). Darparwyd data gan y tîm LLWR ac fe'i trafodir yn adran tri.

**Arolwg dros y ffôn o ddarparwyr a'r sector gwirfoddol a chyhoeddus**

2.11. Cafodd darparwyr allweddol a sefydliadau'r sector gwirfoddol a chyhoeddus eu harolygu. Roeddent yn cynnwys:

- adrannau dysgu oedolion mewn awdurdodau lleol;
- SAB; a
- sefydliadau yn y sector gwirfoddol a chyhoeddus.

2.12. Defnyddiwyd cyfweliadau a'r templed casglu data i gasglu data ansoddol a meintiol ar:

- Y galw presennol a phosibl am ddarpariaeth BSL i oedolion.
- Darpariaeth BSL bresennol a phosibl, wedi'i hategu gan dempled cipio data (a drafodir isod).
- Dysgwyr (e.e. gwybodaeth ddemograffig); eu cymhellion a'r cyllid y gallant ei ddefnyddio (lle y mae'n hysbys).
- Mapio'r gweithlu er mwyn asesu a fyddai digon o diwtoriaid yng Nghymru i allu cefnogi ymrwymiad i ddynodi BSL yn sgil cyfathrebu hanfodol.
- Dichonoldeb a goblygiadau tebygol dynodi BSL yn sgil cyfathrebu hanfodol (gan gynnwys, er enghraifft, sut y gellid asesu sgiliau BSL i bennu cymhwystra).

2.13. Cyfrannodd cyfanswm o 33 o randdeiliaid o Gymru a chynrychiolydd o lywodraethau'r Alban a Lloegr at yr adolygiad[8]. O ystyried cwestiynau'r adolygiad, fel yr amlinellir yn nhabl 2.2., roedd y rhan fwyaf o'r cyfweleion (n=25) yn ddarparwyr dysgu BSL (h.y. SAB neu adrannau dysgu oedolion mewn awdurdodau lleol), ac mae'r tabl yn amlinellu'r cyfraddau ymateb a gyflawnwyd[9]. Ategwyd safbwyntiau darparwyr dysgu BSL gan gyfweliadau a thrafodaethau gyda chynrychiolwyr o'r sector gwirfoddol a chyhoeddus (n=5), Llywodraeth Cymru (n=1) a dau arbenigwr clyw (yr ymgynghorwyd â nhw ynghylch data ar golli clyw).

**Tabl 2.2. Sampl a gyflawnwyd drwy'r arolygon ffôn**

| Grŵp rhanddeiliaid | Poblogaeth | Sampl a gyflawnwyd |
|---|---:|---:|
| Adrannau dysgu oedolion mewn awdurdodau lleol | 22 | 16* |
| SAB | 13 | 8** |
| Y sector gwirfoddol a chyhoeddus | Dd/B | 5*** |

* Ynys Môn, Blaenau Gwent, Caerffili, Caerdydd, Caerfyrddin, Ceredigion, Conwy, Sir Ddinbych, Gwynedd, Merthyr Tudful, Sir Fynwy, Castell-nedd Port Talbot, Casnewydd, Sir Benfro, Bro Morgannwg a Wrecsam.

**Addysg Oedolion Cymru; Coleg Gŵyr; Coleg Gwent; Coleg Caerdydd a'r Fro; Coleg Sir Benfro; Coleg Cambria; Coleg y Cymoedd; a Grŵp Llandrillo Menai.

***Cyngor Cymru i Bobl Fyddar, Cymdeithas Athrawon ac Aseswyr Iaith Arwyddion Prydain, Swyddfa'r Comisiynydd Plant, Dysgu Cymunedol Cymru a'r Gymdeithas Genedlaethol Plant Byddar.

2.14. Felly nid oedd y sampl yn gwbl gynrychioliadol, ond mae'n cynnwys y darparwyr allweddol a grwpiau sector gwirfoddol a chyhoeddus, gan ddarparu sylfaen weddol gadarn ar gyfer dod i gasgliadau am y ddarpariaeth o bob rhan o Gymru.

[8] Yn anffodus, nid oedd yn bosib nodi pwy oedd yn gyfrifol am y polisi ar ddarpariaeth ddysgu BSL i oedolion yng Ngogledd Iwerddon.

[9] O'r 23 o ddarparwyr dysgu BSL a ymatebodd, rhoddodd naw wybodaeth drwy'r templed cipio data hefyd. Lle na chafodd y templed ei ddarparu, mae'r adroddiad yn dibynnu'n llwyr ar ddata a gasglwyd yn ystod y cyfweliad.

## 3. Darpariaeth Dysgu Iaith Arwyddion Prydain

### Cyflwyniad

3.1. Ar hyn o bryd nid oes gan Lywodraeth Cymru bolisi ar gyfer darparu darpariaeth dysgu BSL ôl-19. Mae hyn yn golygu bod (fel yr amlinellir yn adran 1) partneriaethau ACL/awdurdodau lleol a SAB (colegau) yn rhydd i bennu eu gweithgarwch arfaethedig yn unol ag anghenion lleol. Yn yr adran hon rydym yn trafod y ddarpariaeth dysgu BSL ôl-19 a gynigir ar hyn o bryd gan bartneriaethau ACL/ALlau a/neu SAB yng Nghymru.

3.2. Mae Llywodraeth Cymru yn cyllido darpariaeth BSL o lefel heb ei hachredu / mynediad hyd at lefel 4. Mae'r testun yn y blwch isod yn amlinellu'r hyn y byddai pob un o'r lefelau hyn yn ei ddarparu i ddysgwyr.

**Lefelau BSL**

**Lefel heb ei hachredu/mynediad:** deall a defnyddio nifer cyfyngedig o eiriau.

**Lefel 1:** deall a defnyddio ystod gyfyngedig o eiriau a brawddegau syml a'r gallu i gymryd rhan mewn sgyrsiau syml bob dydd a dilyn cyfarwyddiadau syml.

**Lefel 2:** Gallu ymdrin â'r rhan fwyaf o gyfathrebu arferol a dealltwriaeth ddigonol o ramadeg i ymdopi â pheth cyfathrebu nad yw'n arferol.

**Lefel 3:** Gallu deall a defnyddio BSL amrywiol mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd gwaith a chymdeithasol.

**Lefel 4:** Gallu deall a defnyddio BSL estynedig mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd gwaith a chymdeithasol a gwneud rhywfaint o ddehongli.

*Addaswyd o Signature, d.d.*

### Y ddarpariaeth bresennol

*Y lefelau o BSL sy'n cael eu darparu i oedolion yng Nghymru ar hyn o bryd*

3.3. Mae Tabl 3.1. yn crynhoi'r ddarpariaeth bresennol a gyllidwyd gan Lywodraeth Cymru ar draws Cymru dros y ddwy flynedd academaidd ddiwethaf. Mae'n dangos bod tua dwy ran o dair o'r cyllid ar gyfer darpariaeth BSL lefel 1.

**Tabl 3.1. Darpariaeth BSL yng Nghymru a gyllidwyd gan Lywodraeth Cymru (2016/17-2017/18)**

| Lefelau [o ran gweithgarwch] | 2016/2017 | 2017/2018 |
|---|---|---|
| Lefel heb ei hachredu/mynediad | 19% | 7% |
| Lefel 1 | 62% | 59% |
| Lefel 2 | 12% | 20% |
| Lefel 3 | 2% | 3% |
| Lefel 4 | 2% | 2% |
| Ddim yn hysbys | 2% | 9% |

*Ffynhonnell: LLWR 2019*

*Cyflwyno cyrsiau BSL*

3.4. Nododd cyfweliadau ac ymateb i'r templed data (gweler tabl 3.7) fod cyrsiau'n cael eu cyflwyno mewn lleoliadau ystafell ddosbarth. Er gwaethaf ychydig o enghreifftiau lle roedd adnoddau ar-lein yn cael eu defnyddio yn yr amgylchedd dosbarth, disgrifiodd darparwyr yr holl ddarpariaeth fel un “yn yr ystafell ddosbarth” (yn hytrach na “chymysg”, er enghraifft)

3.5. Soniodd rhai rhanddeiliaid am edrych ar ddewisiadau ar-lein yn y dyfodol, yn enwedig o ystyried yr anawsterau wrth recriwtio tiwtoriaid (gweler paragraff 3.15), er y nodwyd ei bod yn annhebygol y byddai unrhyw newidiadau mawr yn y dyfodol agos. Nododd llawer o randdeiliaid nad oedd cyrsiau ar-lein yn addas i addysgu BSL, o ystyried pwysigrwydd cyswllt wyneb yn wyneb (a chyfyngiadau meddalwedd fel Skype) a gwahaniaethau rhanbarthol mewn tafodiaith (sy'n creu heriau, oherwydd gall darpariaeth ar-lein gynyddu'r tebygolrwydd o gael tiwtor o ardal wahanol i ddysgwyr).

*Darpariaeth ledled Cymru*

3.6. Ceir darlun bylchog o ran darpariaeth dysgu BSL yng Nghymru, gyda rhai awdurdodau lleol, fel Ynys Môn, Caerffili, Conwy, Sir Ddinbych, Merthyr Tudful, Sir Benfro a Wrecsam yn nodi nad ydynt yn darparu unrhyw ddarpariaeth BSL. Fodd bynnag, mewn rhai o'r ardaloedd hyn mae darparwyr yn ateb y galw drwy gyfeirio dysgwyr i ddarpariaeth mewn mannau eraill; er enghraifft, mae gan Gonwy a Sir Ddinbych system atgyfeirio i Addysg Oedolion Cymru ac mae Coleg Cambria yn atgyfeirio i Grŵp Llandrillo Menai. I gefnogi hyn, mae Conwy yn

dyrannu ei harian ACL ar gyfer BSL i Grŵp Llandrillo Menai (SAB). Rydym yn trafod y rhesymau dros hyn isod.

3.7. Mae tabl 3.2 yn dangos mai prin yw'r berthynas rhwng maint poblogaeth awdurdodau lleol a'u gweithgarwch BSL a gyllidir gan Lywodraeth Cymru; er enghraifft, ym Merthyr Tudful y mae'r boblogaeth isaf ymhlith yr awdurdodau lleol (y mae gan LLWR ddata ar eu cyfer), ond eto mae ganddi fwy o weithgarwch dysgu na Chaerdydd, sydd â phedair gwaith yn fwy o bobl yn byw yno. Daeth patrwm anwastad i'r amlwg hefyd yn 2016/17. At hynny, mae data LLWR yn dangos mai dim ond pobl a oedd yn byw mewn lleiafrif o awdurdodau lleol yng Nghymru yn 2017/18 (h.y. Caerffili, Conwy, Sir Benfro a Rhondda Cynon Taf) ac yn 2016/17 (h.y. Caerffili, Conwy, Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin, Gwynedd, Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe) a oedd yn cael mynediad i lefel 1 a 2 ar gyrsiau BSL a gyllidwyd gan Lywodraeth Cymru (roedd y rhan fwyaf dim ond yn cael mynediad i gyrsiau lefel 1). Rhaid trin y data hyn yn eithaf gofalus, gan nad yw'n ystyried unrhyw newidyn fel dosbarthiad oedran a gall fod problemau o ran ansawdd y data LLWR.

**Tabl 3.2. Gweithgarwch BSL a gyllidir gan Lywodraeth Cymru yn ôl domisil y dysgwr (lle mae data ar gael) a phoblogaeth yr ALI**

| ALI y domisil | Poblogaeth 2018 | Lefelau gweithgarwch BSL a gyllidwyd gan Lywodraeth Cymru 2017/18 |
|---|---|---|
| Caerdydd | 364,248 | 35 |
| Abertawe | 246,466 | 20 |
| Rhondda Cynon Taf | 240,131 | 30 |
| Sir Gaerfyrddin | 187,568 | 20 |
| Caerffili | 181,019 | 60 |
| Casnewydd | 153,302 | 50 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 144,876 | 50 |
| Castell-nedd Port Talbot | 142,906 | 15 |
| Sir Benfro | 125,055 | 15 |
| Gwynedd | 124,178 | 25 |
| Conwy | 117,181 | 50 |
| Sir Ddinbych | 95,330 | 10 |
| Torfaen | 93,049 | 5 |
| Ceredigion | 72,992 | 20 |
| Ynys Môn | 69,961 | 20 |
| Merthyr Tudful | 60,183 | 45 |

*Ffynhonnell: LLWR 2019*

**Cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer darpariaeth dysgu BSL**

3.8. Fel y nodwyd, ar hyn o bryd nid oes gan Lywodraeth Cymru bolisi ar ddarpariaeth dysgu BSL ôl-19 a chyfrifoldeb y darparwyr yw penderfynu a ydynt yn cyflwyno unrhyw BSL, ac os ydynt, ar ba ffurf. Roedd gwahaniaeth amlwg ymhlith dehongliad cyfweleion o sut y gellid defnyddio cyllid ACL Llywodraeth Cymru ar gyfer BSL (gweler adran 1). Mewn rhai achosion, fel Bro Morgannwg, i bob pwrpas roedd BSL yn cael ei dosbarthu fel sgil hanfodol neu gyflogadwyedd, sy'n golygu ei bod o fewn blaenoriaethau presennol Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf yn teimlo bod BSL yn syrthio y tu allan i'r

blaenoriaethau presennol ar gyfer ACL, neu'n dewis canolbwyntio ar flaenoriaethau eraill, fel sgiliau digidol. At hynny, roedd gwahaniaethau o ran dehongli a defnyddio cyllid; er enghraifft, defnyddiodd un sefydliad gyllid Llywodraeth Cymru i gyflenwi darpariaeth BSL i deuluoedd a dywedodd un arall y gellid ei ddefnyddio ar gyfer pobl dros 16 oed yn unig. Mae'r gwahaniaethau hyn, yn seiliedig ar ddehongliadau gwahanol o'r rheolau a chanllawiau presennol, yn cyfrannu at anghysondebau yn y ddarpariaeth ledled Cymru.

3.9. Roedd gan ychydig o ardaloedd fynediad i opsiynau cyllido pellach, heblaw am adennill costau (hunangyllido) gan ddysgwyr; er enghraifft, yng Ngogledd Cymru, gallai sefydliadau gael mynediad i'r Gronfa Sgiliau ar gyfer Cyflogwyr a Chyflogeion (a gyllidwyd gan Lywodraeth Cymru a Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO), er bod y data sydd ar gael yn awgrymu mai dim ond Grŵp Llandrillo Menai a wnaeth hynny i gyllido darpariaeth BSL.

*Cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer cyrsiau BSL*

3.10. Yn seiliedig ar y sampl o ddarparwyr, mae tabl 3.3 yn dangos bod tua hanner o'r holl gyrsiau BSL i oedolion yn cael eu cyllido'n llawn gan Lywodraeth Cymru a 40 y cant yn cael eu cyllido'n rhannol gan Lywodraeth Cymru, gan adael cyfran fach yn unig heb eu cyllido o gwbl. Wrth ddehongli'r ffigurau, mae'n werth nodi bod Grŵp Llandrillo Menai yn arbennig wedi darparu llawer o'r cyrsiau (gweler tabl 3.7.) ac os yw Grŵp Llandrillo Menai yn cael ei eithrio, yna mae hanner yr holl gyrsiau'n cael eu cyllido'n rhannol ac mae cyfran y cyrsiau nad ydynt yn cael eu cyllido gan Lywodraeth Cymru (adennill costau llawn) ddwywaith yn uwch, sef 12 y cant.

**Tabl 3.3. Cyfran y cyrsiau a gyllidwyd yn llawn, a gyllidwyd yn rhannol neu heb eu cyllido gan Lywodraeth Cymru**

| | Cyllidwyd yn llawn gan Lywodraeth Cymru | Cyllidwyd yn rhannol gan Lywodraeth Cymru | Heb eu cyllido (adennill costau llawn) |
|---|---:|---:|---:|
| Darparwr (SAB, ALI, 3ydd sector) | 55% (Nifer 417) | 39% (Nifer 296) | 6% (Nifer 42) |

*Ffynhonnell: Templed casglu data BSL Pobl a Gwaith 2019*

*Effaith toriadau cyllid ar ddarpariaeth BSL*

3.11. Tynnodd llawer o gyfweleion sylw at effaith toriadau cyllid, yn fwyaf nodedig yn 2015, a oedd wedi lleihau maint y ddarpariaeth BSL a hefyd yr hyn a oedd wedi'i gyllido'n llawn neu'n rhannol gan Lywodraeth Cymru. Mae'r data LLWR yn dangos y bu gostyngiad o tua dwy ran o dair yn nifer y cyrsiau (gweithgarwch) a gyllidwyd gan Lywodraeth Cymru dros y pedair blynedd diwethaf. Fodd bynnag, roedd dod â chyllid ar gyfer BSL fel rhan o Fagloriaeth Cymru i ben yn cyfrif am lawer o hyn.

3.12. Yn fwy eang, nododd y cyfweleion amrywiaeth o ffactorau a oedd yn golygu bod darpariaeth BSL yn cael ei heffeithio'n benodol gan y toriadau i gyllid addysg a hyfforddiant ôl-16; er enghraifft, nodwyd:

- Nid yw'r cyllid a ddarperir gan Lywodraeth Cymru yn cwmpasu costau llawn darpariaeth BSL.
- Roedd cyfradd cwblhau BSL mewn rhai colegau yn isel, sy'n golygu bod y ddarpariaeth yn fwy tebygol o gael ei dirwyn i ben pan wnaed toriadau.
- Roedd darpariaeth rhan-amser (yn gysylltiedig â darpariaeth ACL) wedi'i thorri yn fwy dros y blynyddoedd diwethaf (ac roedd darpariaeth BSL yn aml yn rhan-amser).
- Roedd y cyllid mewn SAB ar gyfer BSL achrededig yn is nag yr oedd ar gyfer darpariaeth sgiliau sylfaenol.

3.13. Nododd rhai cyfweleion hefyd nad oedd model cyllid Llywodraeth Cymru yn ystyried  ffactorau fel lefelau amddifadedd mewn cymunedau lleol, a natur wledig.

3.14. Yn anochel, mewn llawer o ardaloedd, cafodd toriadau yn y ddarpariaeth sgil effaith ar y galw, o ran nifer y dysgwyr, (ffocws adran 4) gan nad oedd cyrsiau bellach am ddim neu roeddent wedi'u dirwyn i ben.

**Tabl 3.4. Swm y gweithgarwch BSL a gyllidwyd gan Lywodraeth Cymru[10] (2016/17-2017/18).**

| | 2016/2017 | 2017/18 |
|---|---|---|
| Gweithgareddau BSL a ariennir gan Lywodraeth Cymru | 610 | 515 |

*Ffynhonnell: LLWR 2019*

3.15. Roedd y rhwystrau eraill i ddarpariaeth, y tu hwnt i gyfyngiadau cyllid, a nodwyd gan gyfweleion yn cynnwys:

- Maint bach y gweithlu tiwtoriaid, gyda darparwyr yn gyson yn nodi bod nifer y tiwtoriaid cymwys yn fach (mater a drafodir ymhellach yn adran 5), ac oherwydd bod y gwaith a gynigiwyd yn rhan-amser fel arfer, roedd yn anodd recriwtio tiwtoriaid ac weithiau'n anodd eu cadw.
- Y diffyg cyllid ar gyfer gweithgareddau i ymgysylltu â dysgwyr sy'n oedolion, gan gynnwys gweithwyr a digwyddiadau marchnata ac ymgysylltu, ynghyd â lefelau isel o ymwybyddiaeth o gyrsiau BSL. Gallai hyn ei gwneud yn anodd recriwtio nifer digonol o ddysgwyr i wneud cyrsiau'n ddichonadwy ac, er enghraifft, i gynnig cyrsiau yn ystod y dydd a chyda'r hwyr. Fel y nododd un cyfwelai.

> “Mae'r rhwystrau hyn yn rhai cyffredinol ar gyfer dysgu oedolion yn y gymuned. Mae ymgysylltu â phobl yn frwydr ddyddiol i gynghorwyr cymunedau oedolion a chyda chyn-lleied o gyllid ar gael mae llawer o rwystrau na allwn eu cyrraedd fel crèche neu dalu am ofal plant….Mae'r rhain yn faterion bob dydd boed ar gyfer BSL neu ddysgu oedolion yn y gymuned”.

**Costau'r ddarpariaeth**

3.16. Nododd llawer o ddarparwyr eu bod yn gallu cyflwyno cwrs BSL lefel 1 ar gyfer tua £50-£80 yr awr (mae hyn yn cynnwys costau tiwtor, lleoliad ac arholiadau). Fodd bynnag, roedd amrywiaeth eang o gostau ar draws y darparwyr a holwyd, o tua £30 yr awr i dros £100 yr awr (gweler tabl 3.7). Roedd hyn yn adlewyrchu ffactorau fel lefelau gwahanol o alw (a oedd yn effeithio ar allu darparwyr i

[10] Mae'r cyfeiriad at ‘weithgarwch BSL’ yn y tablau yn cyfeirio at nifer y cyrsiau BSL a gyflwynwyd yn hytrach na nifer y dysgwyr, oherwydd gall dysgwr unigol ymwneud â mwy nag un cwrs ym mhob blwyddyn.

wireddu darbodusion maint), ffactorau lleol (e.e. mynediad i leoliadau) a gwahaniaethau anochel o ran effeithlonrwydd sefydliadol.

3.17. Yn ôl y disgwyl, yn gyffredinol roedd cost y cyrsiau'n cynyddu ar lefelau 2 a 3. Roedd y cynnydd yn y gost ar lefelau 2 a 3 yn fwy amlwg mewn rhai sefydliadau nag eraill.

**Penderfyniadau darparwyr am ddarpariaeth BSL**

3.18. Roedd penderfyniadau darparwyr ynghylch faint o gyrsiau BSL a pha gyrsiau i'w darparu yn dibynnu ar amrywiaeth o ffactorau gan gynnwys:

- Costau cyrsiau a'u dealltwriaeth neu eu dehongliad o gyfleoedd cyllido gan gynnwys yr hyn a gynigir gan Lywodraeth Cymru a ffynonellau eraill, fel WEFO.
- Eu hasesiad o lefel y galw am gyrsiau BSL (gan gynnwys cystadleuaeth gan ddarparwyr BSL eraill).
- Cystadleuaeth gan gyrsiau eraill a oedd yn haws i'w darparu ar y cyfan (e.e. ESOL), a oedd yn cystadlu â BSL am ofod mewn ystafell ddosbarth ac adnoddau eraill.

**Nifer a phroffil dysgwyr BSL sy'n oedolion**

3.19. Ceir dau grŵp eang o ddysgwyr: rhieni neu ofalwyr plant B/byddar a gweithwyr proffesiynol (pobl sy'n dysgu BSL ar gyfer gwaith). Yn ogystal, ceir nifer bach o ddysgwyr hamdden (pobl sy'n dysgu'n bennaf am ddiddordeb personol neu hobi), a oedd yn tueddu i fod yn bobl a oedd wedi ymddeol, ac ychydig o enghreifftiau o bobl fyddar a gollodd eu clyw fel oedolion neu a oedd yn fyddar yn ystod plentyndod, ond nad oeddent wedi cael y cyfle i ddysgu BSL pan oeddent yn yr ysgol. O ystyried cwmpas a chylch gwaith yr astudiaeth hon, dim ond dysgwyr wedi'u hysgogi i ddysgu BSL i gyfathrebu ag aelodau eraill o'r teulu a allai fod yn gymwys i ddysgu BSL fel sgil cyfathrebu hanfodol. Yn ogystal, er ei fod y tu allan i gwmpas yr astudiaeth hon, gellir ystyried bod oedolion byddar sy'n dysgu BSL eu hunain, o bosibl yn gymwys i ddysgu BSL fel sgil cyfathrebu hanfodol.

3.20. Mae darparwyr yn casglu data cyfyngedig ar gymhellion eu dysgwyr; er enghraifft, nid ydynt yn cofnodi'n systematig a yw dysgwyr yn cael eu cymell i ddatblygu'n broffesiynol neu i'w helpu i gyfathrebu ag aelod o'u teulu. Yn amodol ar y cafeat

pwysig hwn, roedd tystiolaeth anecdotaidd gan ddarparwyr yn nodi bod mwyafrif (tua 60-70 y cant) y dysgwyr yn cael eu cymell i ddysgu BSL ar gyfer gwaith mewn proffesiynau fel gofal ac addysg (ysgolion yn bennaf). Roedd cyfran y dysgwyr wedi'u cymell i ddysgu BSL i gyfathrebu â phlentyn Byddar yn llawer is (amcangyfrif o tua 10 – 30 y cant). Fodd bynnag, roedd rhai enghreifftiau o ardaloedd lle roedd cyfran y dysgwyr wedi'u cymell i ddysgu BSL i gyfathrebu â phlentyn Byddar yn uwch na hyn.

3.21. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn fenywod. Mae data ansoddol a gasglwyd gan gyfweleion a'r LLWR (gweler tablau 3.5 a 3.6) ynghylch rhywedd ac oedran dysgwyr yn awgrymu bod y mwyafrif (yn gyson dros 80 y cant) yn fenywod a'u bod o oedran gweithio. Gall hyn adlewyrchu'r math o broffesiynau lle mae angen BSL (e.e. proffesiynau gofal ac addysg, sydd â chyfran fawr o staff benywaidd). Roedd y patrwm hwn fel petai'n adlewyrchu dysgwyr a oedd yn cael mynediad i gyrsiau nad oeddent yn cael eu cyllido gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, roedd y cyfweliadau â darparwyr yn awgrymu bod ychydig yn fwy o bobl 65 oed a hŷn, mewn gweithgarwch nad oedd yn cael ei gyllido gan Lywodraeth Cymru.

**Tabl 3.5. Rhywedd dysgwyr BSL sy'n oedolion (2016/17-2017/18) (%)**

| | **2016/2017** | **2017/18** |
|---|---|---|
| **Menywod** | 83 | 84 |
| **Dynion** | 17 | 16 |

*Ffynhonnell: LLWR 2019*

**Tabl 3.6. Oedran dysgwyr BSL (2016/17-2017/18) (%)**

| **Oedran** | **2016/2017** | **2017/18** |
|---|---|---|
| 16-18 | 3 | 6 |
| 19-39 | 53 | 53 |
| 40-64 | 41 | 38 |
| 65+ | 3 | 2 |

*Ffynhonnell: LLWR 2019*

### Addysgu BSL drwy gyfrwng y Gymraeg

3.22. Cafodd yr holl gyrsiau BSL a nodwyd ar gyfer yr astudiaeth hon eu cyflwyno yn Saesneg a thrwy BSL. Nid oedd unrhyw gyrsiau BSL wedi'u cyflwyno drwy gyfwng y Gymraeg a BSL. Esboniodd y darparwyr mai'r rheswm am hyn oedd nad oedd llawer o alw am hyn.  Nid yw'n bosibl nodi gyda sicrwydd a fyddai'r galw am gyrsiau BSL a gyflwynir drwy gyfrwng y Gymraeg a BSL yn cynyddu pe bai BSL yn cael ei dynodi'n sgil hanfodol. Fodd bynnag, mae'n rhesymol tybio y byddai cynnydd yn y niferoedd y byddai'n well ganddynt ddysgu BSL drwy'r Gymraeg a BSL, pe baent yn cael y dewis.

3.23. Er nad oedd yn cael ei haddysgu'n ffurfiol fel hyn, rhoddwyd enghreifftiau o ddysgwyr a fyddai'n arwyddo ac yn "gwefuso" geiriau yn Gymraeg. Nodwyd y byddai patrwm y geg yn wahanol mewn ieithoedd gwahanol ac nid oedd un coleg a'i ddysgwyr yn ymwneud â datblygu patrymau'r geg yn Gymraeg, a ddisgrifiwyd ganddynt fel cam arloesol i'r Gymraeg.

**Tabl 3.7. Y ddarpariaeth yn ôl darparwr**

| | Lefelau a gyflwynir ar hyn o bryd | Dull o gyflwyno | # dysgwyr / blwyddyn | Costau (£) yr awr* | Cyllid LIC |
|---|---|---|---|---|---|
| Grŵp Llandrillo Menai (SAB) | Lefel 1 yn bennaf ond rhywfaint o ddarpariaeth hyd at 4 | Ystafell ddosbarth | 450 | 50-55 | Yn rhannol ac yn llawn |
| Coleg Gwent (SAB) | Heb eu hachredu ac 1 | Ystafell ddosbarth | 127 | 52-104 | Rhannol a heb adennill costau llawn |
| CAVC (SAB) | 1 | Ystafell ddosbarth | 47 | 50 | Yn llawn |
| Coleg y Cymoedd (SAB) | 1,2 | Ystafell ddosbarth | 40 | *** | Yn rhannol |
| Sir Benfro (SAB) | 1,2,3 | Ystafell ddosbarth | 35 | 34-110 | Yn rhannol a dim - adennill costau llawn |
| Caerfyrddin (ALI) | 1 | Ystafell ddosbarth | 9 | 115 | Yn llawn |
| Gŵyr (SAB) | 1 | Ystafell ddosbarth | | 66-180 | |
| Cambria (SAB) | Dim darpariaeth | Dd/B | Dd/B | Dd/B | Dd/B |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Ceredigion (ALI) | Heb eu hachredu 1,2,3 | Ystafell ddosbarth | 67 | 40-65 | Yn rhannol |
| Mynwy (ALI) | Heb eu hachredu | Ystafell ddosbarth | 5 | 80-120 | Dim - adennill costau llawn |
| CNPT (ALI) | Heb eu hachredu ac 1,2,3 | Ystafell ddosbarth | | £100** | Yn llawn a chytundeb rhyddfraint gydag Agored hefyd |
| Casnewydd (ALI) | Heb eu hachredu ac 1 | Ystafell ddosbarth | | | |
| Caerffili (ALI) | Dim darpariaeth | Ystafell ddosbarth | Dd/B | Dd/B | Dd/B |
| Conwy (ALI) | Dim (er bod cysylltiadau ag Addysg Oedolion Cymru) | Dd/B | Dd/B | Dd/B | Dd/B |
| Sir Ddinbych (ALI) | Dim (er bod cysylltiadau ag Addysg Oedolion Cymru) | Dd/B | Dd/B | Dd/B | Dd/B |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn (ALI) | Dim darpariaeth | Dd/B | Dd/B | Dd/B | Dd/B |
| Merthyr Tydfil (ALI) | Dim darpariaeth | Dd/B | Dd/B | Dd/B | Dd/B |
| Sir Benfro (ALI) | Dim darpariaeth | Dd/B | Dd/B | Dd/B | Dd/B |
| Wrecsam (ALI) | Dim darpariaeth | Dd/B | Dd/B | Dd/B | Dd/B |
| Addysg Oedolion Cymru (3ydd Sector) | Achrededig lefel 1 | Ystafell ddosbarth | 175 | **** | Yn llawn |
| Dysgu Cymunedol Cymru (3ydd sector) | 1,2,3,4,5,6 | Ystafell ddosbarth | 100-120 | 5** | Dim - adennill costau llawn |
| Cyngor Cymru i Bobl Fyddar (3ydd sector) | 1, 2 | Ystafell ddosbarth | 21 | 60-80 | Dim - adennill costau llawn |
| Cymdeithas Genedlaethol Plant Byddar (3ydd sector) | Heb eu hachredu | Ystafell ddosbarth | 3 | 17 | Dim - adennill costau llawn |
| ABSLTA (3ydd sector) | Dim darpariaeth | Dd/B | Dd/B | Dd/B | Dd/B |

**Mae hyn yn cynnwys costau tiwtoriaid, lleoliad ac arholiadau. Yn gyffredinol, lle dangosir ystod (e.e. 50-55) y cyrsiau lefel uwch yw'r rhai drutach, er nad yw hyn yn wir bob amser.*

*** Cwrs lefel 1.*

**** Ni ddarparwyd costau fesul awr, er mai cost fesul dysgwr oedd:* £150-225.

***** Ffi dysgwr yn unig (h.y. efallai nad yw'n cynnwys costau fel lleoliad): £3.50*.

*Ffynhonnell: Templed casglu data BSL Pobl a Gwaith ac ymatebion i'r cyfweliadau 2019.*

# 4. Y galw am ddarpariaeth BSL

### Y galw gwirioneddol a'r galw posibl gan rieni a gofalwyr

*Cyflwyniad*

4.1. Mae'n anodd iawn amcangyfrif y galw posibl am ddarpariaeth dysgu BSL i rieni neu ofalwyr, gydag unrhyw raddau o fanwl gywirdeb. Nid oes lefel wedi'i diffinio'n glir o golled neu nam ar y clyw, y byddai angen i blentyn ddefnyddio BSL (neu gyfwerth) o dan y lefel honno, ac nid BSL yw'r unig opsiwn (neu ddewis) ar gyfer plant B/byddar. Hefyd, prin yw'r data ar lefelau clyw ymhlith y boblogaeth gyfan. Felly, yn yr adran hon rydym yn defnyddio'r data sydd ar gael i amcangyfrif:

- Yr **isafswm lefel** o ddarpariaeth sydd ei hangen, yn seiliedig ar nifer y plant sydd â lefelau cymedrol, difrifol a dwys o fyddardod.
- Yr **uchafswm lefel** o ddarpariaeth sydd ei hangen, yn seiliedig ar nifer y plant sydd â lefelau ysgafn, cymedrol, difrifol a dwys o ran colli clyw (gweler tabl 4.1 am fanylion).

**Tabl 4.1. Trothwyon ar gyfer gwahanol lefelau o golli clyw**

| Disgrifydd | Lefelau trothwy clyw ar gyfartaledd (dB HL) |
|---|---:|
| Nam ysgafn ar y clyw | 21-40 |
| Nam cymedrol ar y clyw | 41-70 |
| Nam difrifol ar y clyw | 71-95 |
| Nam dwys ar y clyw | Dros 95 |

*Ffynhonnell: BSA, 2018, t.28.*

4.2. Mae'r amcangyfrifon yn seiliedig ar nifer y plant byddar sy'n debygol o gael eu geni bob blwyddyn, er mwyn amcangyfrif nifer y rhieni a gofalwyr newydd sy'n gymwys i ddysgu BSL bob blwyddyn. Oherwydd y bydd yn aml yn cymryd mwy na blwyddyn i rieni neu ofalwyr gwblhau cwrs achrededig, mae cyfanswm nifer y dysgwyr mewn unrhyw flwyddyn benodol yn debygol o fod yn uwch. Er enghraifft, os bydd yn cymryd dwy flynedd ar gyfartaledd i ddysgwyr gwblhau cwrs BSL, byddai cyfanswm nifer y dysgwyr mewn unrhyw flwyddyn benodol ddwywaith yn fwy na'r amcangyfrif a roddwyd. Mae hefyd yn debygol na fyddai holl rieni neu ofalwyr plentyn byddar yn dewis dysgu BSL ac y byddai rhai'n dechrau cyrsiau, ond nid yn eu cwblhau.

4.3. Oherwydd, fel yr amlinellwyd yn adran 1, bod y mwyafrif llethol o blant byddar (90 y cant) yn cael eu geni i rieni sy'n gallu clywed ac nad oes ganddynt unrhyw fath o ddealltwriaeth o BSL yn aml, at ddibenion creu amcangyfrif, rydym yn tybio y bydd angen i rieni neu ofalwyr pob plentyn B/byddar ddysgu BSL. Rydym hefyd yn canolbwyntio ar gymhwystra ar gyfer darpariaeth BSL, yn hytrach na'r nifer gwirioneddol sy'n manteisio ar ddarpariaeth BSL (at ddibenion cyfrifo'r amcangyfrif). Yn ymarferol, mae'n debygol na fyddai'r holl rieni neu ofalwyr sy'n gymwys i gael darpariaeth BSL yn manteisio arni, o ystyried y rhwystrau a amlinellir isod, ac mewn rhai achosion, dim ond un rhiant neu ofalwr plentyn fyddai'n manteisio ar y ddarpariaeth. Yn olaf, mae'n werth nodi y gall datblygiadau meddygol dros y tymor canolig i hir, arwain at ostyngiad yn y galw i blant ddysgu BSL. Yn yr un modd, nodwyd nad yw rhai datblygiadau meddygol, fel mewnblaniadau yn y cochlea, o reidrwydd yn ddewisiadau amgen i BSL, ac efallai y bydd plant B/byddar sydd â mewnblaniadau yn y cochlea yn parhau i ddewis dysgu BSL.

4.4. Pe byddai BSL yn cael ei dynodi fel sgil cyfathrebu hanfodol, a chan ddibynnu ar sut y lluniwyd y meini prawf cymhwystra, gallai fod angen gwneud rhagor o waith i geisio amcangyfrif y galw gan bobl hŷn nad oeddent yn gallu dysgu BSL pan oeddent yn iau, neu sy'n mynd yn fyddar yn nes ymlaen mewn bywyd. Mae hyn yn debygol o fod yn anodd, oherwydd bod diffyg data ar (i) nam ar y clyw ymhlith oedolion hŷn; (ii) nifer yr oedolion hŷn sy'n manteisio ar BSL; a (iii) partneriaid oedolion hŷn, er enghraifft, sy'n manteisio ar BSL. Er bod y mater hwn y tu allan i gwmpas yr astudiaeth hon, fel y nodwyd yn adran 3, nododd yr astudiaeth hon ychydig iawn o bartneriaid oedolion hŷn sy'n dysgu BSL, ond gall hyn newid wrth i'r boblogaeth heneiddio[11] a allai olygu bod nifer yr oedolion sy'n dysgu BSL yn ddiweddarach mewn bywyd yn cynyddu, o ystyried y gyfradd uwch o golli clyw gydag oedran.

[11] "Disgwylir i nifer y bobl 65 oed a throsodd gynyddu 232,000 (36.6 y cant) rhwng 2016 a 2041". Amcanestyniadau poblogaeth cenedlaethol: sail-2016 (LIC, 2017b, Fel ar: 5 Ebrill, 2019)

*Amcangyfrif isafswm (neu isel) o nifer y plant B/byddar yng Nghymru*

4.5. Mae gan 1.5 allan o 1,000 o blant o dan bump oed nam ar y clyw dwyochrol sylweddol[12], diffinnir hyn fel nam ar y clyw cymedrol, difrifol a dwys (gweler tabl 4.1. am fanylion)[13]. O ystyried y gyfradd genedigaethau o 33,279 yn 2015 (y ffigur diweddaraf sydd ar gael yn rhwydd) (StatsCymru, 2017) mae hyn yn dangos y bydd tua 50 o blant yn cael eu geni bob blwyddyn sy'n debygol o ddysgu BSL. Mae hyn yn golygu bob blwyddyn, byddai 100 o rieni neu ofalwyr (dau riant neu ofalwr ar gyfer pob plentyn) yn dod yn gymwys am ddarpariaeth BSL, pe bai BSL yn cael ei dynodi'n sgil cyfathrebu hanfodol.

4.6. Mae'r gyfradd genedigaethau wedi bod yn cynyddu'n araf a bu mewnfudo hefyd, yn enwedig i ardaloedd trefol fel Caerdydd. Mae hyn yn golygu y bydd cyfanswm nifer y plant B/byddar sy'n debygol o ddysgu BSL ychydig yn uwch nag amcangyfrif sy'n seiliedig ar gyfradd genedigaethau 2015 (y data diweddaraf sydd ar gael). Mae amrywiadau blynyddol yn y gyfradd genedigaethau hefyd yn golygu y gall cyfrifiadau sy'n seiliedig ar y gyfradd mewn un flwyddyn fod yn anarferol o isel neu uchel. Mae cymryd cyfartaledd dros bedair blynedd yn helpu i lyfnu unrhyw amrywiadau blynyddol. Yn 2018, cyfanswm y boblogaeth 0-4 oed yng Nghymru oedd 168,703 (StatsCymru, 2019) sy'n cyfateb i 42,175 o blant ar gyfartaledd ym mhob grŵp blwyddyn. Mae'r ffigur hwn yn nodi **bod tua 63 o blant yn debygol o ddechrau dysgu BSL bob blwyddyn**. Mae hyn yn golygu bob blwyddyn, byddai 126 o rieni (dau i bob plentyn) yn dod yn gymwys am ddarpariaeth BSL, pe bai BSL yn cael ei dynodi'n sgil cyfathrebu hanfodol.

*Amcangyfrif uchafswm (neu uchel) o nifer y plant B/byddar yng Nghymru*

4.7. Mae'r Consortiwm Ymchwil mewn Addysg i'r Byddar (CRIDE) yn amcangyfrif bod o leiaf 2,625 o blant B/byddar (0-19 oed gyda byddardod ysgafn i ddwys) yng Nghymru[14]. Yn fras, byddai hyn yn golygu tua **140 o blant ym mhob grŵp blwyddyn** yn dysgu BSL (mae'r nifer yn debygol o fod ychydig yn is, po isaf y

---

[12] "Ers cyflwyno sgrinio clyw babanod yn gyffredinol yn 2003, nifer yr achosion o golli clyw dwyochrog sylweddol parhaol (a ddiffinnir fel colli clyw sy'n uwch na 40 db HL) mewn plant o dan 5 oed yw 1.5 fesul 1000". (BSA, 2018, t.9).
[13] Mae'r rhan fwyaf o'r rhain yn cynnwys plant â nam ar y clyw cymedrol (64 y cant o'r cyfanswm), wedi'i ddilyn gan nam difrifol (19 y cant o'r cyfanswm) a nam dwys (17 y cant o'r cyfanswm).
[14] At ddibenion yr arolwg, diffiniwyd "plant byddar" fel "pob plentyn a pherson ifanc hyd at 19 mlwydd oed â byddardod synwyrnerfol a dargludol parhaol yn ôl disgrifyddion Cymdeithas Awdioleg Prydain a BATOD [Cymdeithas Brydeinig Athrawon Pobl Fyddar]" (CRIDE, 2018, t.1).

grŵp oedran ac yn uwch, po uchaf yw'r grŵp oedran). Mae amcangyfrif yn seiliedig ar y ffigur hwn yn golygu bob blwyddyn, byddai 280 o rieni neu ofalwyr (dau i bob plentyn) yn dod yn gymwys am ddarpariaeth BSL, pe bai BSL yn cael ei dynodi'n sgil hanfodol.

*I ba raddau y gallai'r ddarpariaeth BSL bresennol ateb y galw posibl?*

4.8. Mae data LLWR yn dangos bod tua 500 o weithgareddau dysgu BSL wedi'u cyllido gan Lywodraeth Cymru yn 2017/18. O'r rhain:

- Mae tua 60 y cant yn cael eu cyflwyno ar lefel 1, sy'n cyfateb i tua 300 o weithgareddau, sy'n darparu amcangyfrif o tua 300 o ddysgwyr newydd yn dechrau cwrs BSL lefel 1 bob blwyddyn; ac
- Mae tua 20 y cant yn cael eu cyflwyno ar lefel 2, sy'n cyfateb i tua 100 o weithgareddau dysgu, sy'n darparu amcangyfrif o tua 100 o ddysgwyr newydd yn dechrau cwrs BSL lefel 2 bob blwyddyn.

4.9. Mae'r cyfweliadau â rhanddeiliaid yn awgrymu y byddai tua 30 y cant[15] o'r dysgwyr hyn yn rhieni/gofalwyr, sy'n rhoi amcangyfrif o tua 90 o ddysgwyr rhieni a gofalwyr newydd yn dechrau cwrs BSL lefel 1 bob blwyddyn a thua 30 yn dechrau cwrs BSL lefel 2 bob blwyddyn.

4.10. Mae tabl 4.2. yn amlinellu'r bwlch amcangyfrifedig rhwng nifer presennol y dysgwyr sy'n rhieni neu'n ofalwyr a'r amcangyfrifon isafswm ac uchafswm o nifer y rhieni a gofalwyr a fyddai'n gymwys i gael cyrsiau BSL bob blwyddyn, pe bai BSL yn cael ei dynodi'n sgil hanfodol

**Tabl 4.2. Yr amcangyfrif o'r bwlch rhwng nifer presennol y dysgwyr sy'n rhieni neu'n ofalwyr a'r rhai sy'n gymwys i ddysgu BSL, yn seiliedig ar amcangyfrif isel ac uchel.**

| Lefel | # presennol y dysgwyr | Amcangyfrif lleiaf o # y dysgwyr cymwys | Amcangyfrif uchaf o # y dysgwyr cymwys |
|---|---|---|---|
| 1 | 90 | 126 | 280 |
| 2 | 30 | 126 | 280 |

[15] Amcangyfrif yw hyn yn amodol ar gafeatau. Gweler paragraff 3.20 i gael rhagor o fanylion am yr amcangyfrif hwn.

4.11. Mae tabl 4.2. yn awgrymu bod nifer y dysgwyr cymwys, hyd yn oed ar yr amcangyfrif isel (neu isafswm), yn sylweddol uwch na nifer presennol y rhieni neu ofalwyr sy'n cael mynediad i ddarpariaeth dysgu BSL o ran canran, hyd yn oed os nad termau absoliwt. Mae'r gwahaniaeth yn arbennig o amlwg ar lefel 2. Mae'n bwysig cofio bod tabl 4.2 yn seiliedig ar y ffigurau cenedlaethol, a bod gwahaniaethau amlwg ar lefel awdurdod lleol. Fel yr amlinellwyd yn adran 3, nid yw dosbarthiad y cyrsiau yn adlewyrchu patrymau poblogaeth, sy'n golygu ei bod yn debygol nad oes digon o ddarpariaeth mewn rhai ardaloedd i ateb y galw gan rieni a gofalwyr. Yn yr un modd, mae tabl 4.2. yn tybio bod pawb sy'n gymwys yn manteisio ar eu hawl, sy'n annhebygol; er enghraifft, efallai na fydd y ddau riant (neu'r ddau ofalwr) yn dewis (neu efallai nad ydynt yn gallu) manteisio ar eu hawl, o ystyried rhwystrau fel gofal plant, a drafodir isod.

**Rhwystrau i fanteisio ar ddarpariaeth dysgu BSL**

4.12. Roedd nifer o rwystrau i fanteisio ar ddarpariaeth dysgu BSL a oedd yn lleihau'r galw a nodwyd gan gyfweleion; roeddent yn cynnwys:

- Prinder darpariaeth a/neu ddarpariaeth a gynigiwyd ar adegau nad oedd yn addas i ddysgwyr, gan fod llawer o ddysgwyr mewn cyflogaeth (e.e. mae llawer o SAB lle ceir diffyg cyflwyno ar benwythnosau) a/neu mae ganddynt gyfrifoldebau rhianta/gofalu.
- Cost (fel yr amlinellwyd yn adran 3); Nid yw cyllid Llywodraeth Cymru yn talu am bob cost, ac efallai y bydd dysgwyr yn wynebu costau eraill fel gofal plant a/neu gostau teithio.
- Sgiliau llythrennedd ac iaith gwael (mae dysgu ail iaith yn heriol);
- Profiad blaenorol negyddol o addysg, sy'n gallu tanseilio hyder neu hunaneffeithiolrwydd pobl (a ddisgrifir yn aml fel “rhwystrau anianawd.”).
- Gallai cwricwlwm yr ysgol fod yn rhwystr hefyd; er enghraifft, efallai na fydd rhiant neu ofalwr plentyn ifanc B/byddar yn dymuno dysgu'r arwyddion sy'n ofynnol gan gwricwlwm Sefydliad Iaith Arwyddion Prydain (IBSL). Efallai y bydd y BSL y maent am ei gwybod yn gysylltiedig â theganau, dweud wrth eu plentyn i fynd i'r gwely, a sut i ddarllen stori amser gwely. Er bod rhywfaint o hyblygrwydd yng nghwricwlwm yr IBSL, nodwyd ei bod yn anodd iawn ei deilwra i anghenion dysgwyr unigol.

### Ffactorau sy'n hwyluso

4.13. Cafodd nifer o ffactorau sy'n gallu hwyluso'r galw, yn aml drwy leihau neu ddileu rhwystrau, eu nodi hefyd gan gyfweleion ar gyfer yr astudiaeth hon; mae'r rhain yn cynnwys:

- Gweithgareddau i godi ymwybyddiaeth
- Gweithgareddau ymgysylltu (fel cyrsiau bachyn a blasu).
- Darpariaeth â chymhorthdal neu am ddim.
- Cymorth i oresgyn rhwystrau fel gofal plant (e.e. cyfleusterau crèche) a thrafnidiaeth (e.e. darpariaeth leol, yn y gymuned sy'n hygyrch ar drafnidiaeth gyhoeddus). Amlinellir enghraifft yn y testun yn y blwch isod.

**Enghraifft o hwyluso'r galw ar gyfer darparwr BSL**

Roedd darparwr wedi nodi bod darpar ddysgwyr BSL yn wynebu rhwystrau o ran cael mynediad i gyrsiau BSL. Helpodd y darparwr nhw i oresgyn rhwystrau ariannol (sy'n rhwystr cyffredin) drwy gynnig mynediad i'w Cronfa Ariannol Wrth Gefn i gyfrannu at gostau'r ffi arholiad. Mae'r gronfa ar gael i'r rhai sy'n hawlio rhai budd-daliadau penodol a/neu sy'n gallu rhoi tystiolaeth o incwm isel. Yna mae staff (tiwtoriaid neu Swyddog Darparu Cwricwlwm) yn cadarnhau'r dystiolaeth a gallant gynorthwyo â'r broses ymgeisio, sy'n gallu digalonni rhai dysgwyr, yn enwedig y rhai sydd wedi bod allan o addysg am gryn amser. Yn ogystal, mae'r darparwr yn gweithio'n agos gyda gwasanaethau eraill pan fo angen, fel Dechrau'n Deg i helpu darpar ddysgwyr i gael mynediad i ddarpariaeth gofal plant fforddiadwy a lleol, a Cymunedau am Waith i helpu'r rhai sy'n ystyried ehangu eu setiau sgiliau i gael cyflogaeth.

## 5. Dichonoldeb dynodi BSL yn sgil cyfathrebu hanfodol

### Barn rhanddeiliaid ar ddymunoldeb dynodi BSL yn sgil cyfathrebu hanfodol

5.1. Ar y cyfan, roedd y rhanddeiliaid y cyfwelwyd â nhw ar gyfer yr astudiaeth hon yn awyddus i ddynodi BSL yn sgil cyfathrebu hanfodol, gan ddyfynnu egwyddorion cydraddoldeb a chyfiawnder (gan gynnwys cyfeirio at Erthygl 8 o'r Ddeddf Hawliau Dynol); er enghraifft, cwestiynodd y cyfweleion pam fo BSL yn cael ei thrin yn wahanol i ddarpariaeth ESOL a thynnwyd sylw at yr effaith negyddol ar blant ac oedolion B/byddar pan na all eu rhieni, gofalwyr neu bartneriaid gyfathrebu â nhw yn eu dewis iaith.

5.2. Roedd rhanddeiliaid hefyd yn aml yn awyddus i ehangu cymhwystra y tu hwnt i rieni (a pherthnasau eraill), gofalwyr a phartneriaid plant ac oedolion B/byddar, i grwpiau eraill, gan gynnwys:

- Y rhai yr oedd angen BSL arnynt i gyfathrebu â phlant ac oedolion B/byddar yn ystod eu gwaith, fel rhai staff addysg ac iechyd.
- Oedolion byddar nad oedd oeddent wedi cael y cyfle i ddysgu BSL yn yr ysgol neu a oedd wedi colli eu clyw yn ddiweddarach yn eu bywydau.
- Y rhai oedd am ddysgu BSL er mwyn cyfathrebu â phlentyn neu oedolyn B/byddar roeddent yn ei adnabod (ond nad oeddent yn rhan o'u teulu). Rhoddwyd enghreifftiau o oedolion a oedd wedi cofrestru ar gyrsiau BSL am eu bod yn adnabod person B/byddar drwy eu heglwys, ac roeddent am allu sgwrsio â nhw er mwyn helpu i wneud iddynt deimlo'n llai ynysig.

5.3. Fodd bynnag, roedd pryderon hefyd y byddai ehangu cymhwystra, yn enwedig i'r rhai sy'n dysgu BSL am resymau sy'n gysylltiedig â gwaith yn golygu bod darparwyr yn cael “llu” o geisiadau, fel y dywedodd un cyfwelai. Byddai hyn yn cynyddu costau a'r risg y byddai'r galw yn fwy na'r capasiti (a drafodir isod).

5.4. Ar y cyfan, roedd rhanddeiliaid y cyfwelwyd â nhw ar gyfer yr astudiaeth hon yn fodlon i BSL gael ei gynnig i lefel 1, yn unol â chyllid ar gyfer sgiliau hanfodol eraill (sydd, fel yr amlinellwyd yn adran 1, yn cael eu darparu am ddim i'r holl ddysgwyr hyd at “lefel angenrheidiol i weithredu a chynnydd mewn gwaith a

chymdeithas.” [16] (LIC, 2017, t.6). Fodd bynnag, nododd nifer o gyfweleion y byddai rhai rhieni, gofalwyr a phartneriaid eisiau ac angen symud ymlaen i lefel 3 neu 4 er mwyn gallu cyfathrebu'n effeithiol â'u plentyn neu bartner B/byddar. Gwelwyd bod y cymhlethdod y cyfathrebu angenrheidiol yn cynyddu wrth i blant B/byddar symud ymlaen i'w harddegau.

**Barn rhanddeiliaid ar y galw a'r meini prawf cymhwystra**

5.5. Fel yr amlinellwyd yn adran 4, mae rhanddeiliaid o'r farn bod cost cyrsiau, ynghyd â darpariaeth fylchog cyrsiau (i raddau helaeth oherwydd cyfyngiadau cyllido), wedi atal y galw (o'i fesur o ran nifer y dysgwyr). Felly, roedd disgwyliad y byddai'r galw'n cynyddu pe bai cyrsiau am ddim ar gael ledled Cymru (ar ôl dynodi BSL fel sgil cyfathrebu hanfodol).

5.6. Pryderon am y gallu i ateb y galw hwn oedd y prif reswm pam fo rhanddeiliaid yn cefnogi cyflwyno meini prawf cymhwystra; er enghraifft, fel y dywedodd un cyfwelai (pan ofynnwyd am ddynodi BSL yn sgil cyfathrebu hanfodol): “ie, byddai'n helpu rhieni/gofalwyr, ond rwy'n poeni...y byddem yn cael llu o bobl sy'n dymuno ei gwneud ar gyfer eu gwaith”. Nododd un cyfwelai hefyd y gallai'r diffiniad o “deulu” fod yn rhy dynnu neu'n rhy llac, a'u bod wedi cael enghreifftiau lle roedd y “teulu cyfan yn cyrraedd” a'i bod “yn eithriadol o ddrud talu am chwech o bobl o'r un teulu i ddysgu BSL”.

5.7. Efallai y bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn dewis cyflwyno meini prawf cymhwystra er mwyn sicrhau bod costau'r rhai sy'n dysgu BSL ar gyfer eu gwaith yn cael eu talu gan gyflogwyr, yn hytrach na chan Lywodraeth Cymru. Efallai y bydd Llywodraeth Cymru am ystyried a ddylai'r rhai sy'n ddi-waith neu'n economaidd anweithgar, sy'n dysgu BSL er mwyn gwella eu rhagolygon cyflogaeth, fod yn gymwys.

5.8. Pan ofynnwyd iddynt am ymarferoldeb cymhwyso meini prawf cymhwystra, roedd rhaniad yn aml rhwng y rhanddeiliaid hynny a oedd yn gyfarwydd â chymhwyso meini prawf cymhwystra ar gyfer sgiliau hanfodol eraill, a'r rhai heb y profiad hwn. Ar y cyfan, roedd y rhai â phrofiad o gymhwyso meini prawf cymhwystra yn teimlo'n gyfforddus ynghylch yr agweddau ymarferol, ac roedd y rhai heb y

---

[16] Disgrifir lefel weithredol fel “gallu i ddarllen, ysgrifennu a siarad Saesneg neu Gymraeg, a defnyddio mathemateg, ar lefel angenrheidiol i weithredu a chynnydd mewn gwaith a chymdeithas” (Llywodraeth Cymru, 2017a, t.6)

profiad hwn yn ansicr ynglŷn â sut y gallai weithio. Fodd bynnag, yn ymarferol, roedd yn ymddangos nad oedd meini prawf cymhwystra ar gyfer sgiliau hanfodol eraill yn cael eu gorfodi'n drylwyr a'u bod yn dibynnu i raddau helaeth ar hunanddatganiadau gan ddysgwyr. Yn y cyd-destun hwn, nodwyd y byddai "profi" bod y darpar ddysgwr yn rhiant, gofalwr neu bartner plentyn neu oedolyn B/byddar, ac mai gallu cyfathrebu â nhw oedd eu prif gymhelliant, yn anodd i'w gadarnhau. Gall hyn greu rhai heriau oherwydd, yn wahanol i fathau eraill o sgil hanfodol (fel llythrennedd neu rifedd), gall fod mwy o ddiddordeb mewn dysgu BSL fel hobi. Fel yr amlinellwyd yn adran 3, mae nifer presennol y dysgwyr hamdden yn isel, ond gallai hyn gynyddu, pe bai darpariaeth am ddim yn cael ei hymestyn ar draws Cymru.

**A oes cynhwysedd i ateb y galw pe bai BSL yn cael ei dynodi'n sgil hanfodol?**

5.9. Fel yr amlinellwyd yn adran 3, ystyrir bod cyllid a phrinder tiwtoriaid yn gyfyngiadau allweddol o ran cyflwyno. Mae'n debygol y bydd rhywfaint o gynhwysedd ychwanegol y gellid ei greu drwy gynyddu maint dosbarthiadau presennol, ond byddai hyn yn gyfyngedig, ac roedd y cyfweleion yn glir nad oedd dosbarthiadau mawr yn effeithiol ar gyfer dysgu iaith fel BSL. Felly byddai cynnydd mawr yn y galw yn gofyn am gynyddu cynhwysedd (h.y. mwy o gyrsiau – a mwy o diwtoriaid a/neu mwy o oriau ar gyfer tiwtoriaid presennol); fel y dywedodd un cyfwelai:

> "Rwy'n credu y byddai'r galw'n cynyddu pe bai'r cwrs am ddim. Ac yna mae gennych broblem addysgu, oherwydd byddai'n rhaid i chi ddod o hyd i diwtoriaid cymwys ac yna byddai'n rhaid i chi ddod o hyd i gyrsiau ar gyfer ymarferwyr yn ogystal â'r gymuned. Yna byddai'n rhaid i chi gael ymarferwyr [tiwtoriaid] lefel 3….Faint o staff fyddai'n gallu diwallu'r angen hwn yn y gymuned leol? Nid yw'r tiwtoriaid allan yno, gallaf eich sicrhau o hynny. Byddai angen i Lywodraeth Cymru wneud yr hyn a wnânt gyda sgiliau hanfodol: cynhaliwyd lefel 5 hyfforddi'r hyfforddwr, a'r bobl a gymhwysodd ar lefel 5 ac yn y gymuned oedd yr ymarferwyr i hyfforddi staff y cyrsiau lefel 3."

5.10. Nodwyd yn gyson mai bach oedd maint y gweithlu addysgu. Nodwyd mai prin iawn oedd y tiwtoriaid nad oeddent yn Fyddar (h.y. yn rhan ddiwylliannol o'r gymuned fyddar ac yn defnyddio BSL yn weithredol) a oedd yn fodlon addysgu

uwchlaw lefel 1 a bod nifer y bobl Fyddar a oedd wedi cymhwyso i o leiaf lefel 3 mewn BSL (yr isafswm i gyflwyno cwrs lefel 2), ac a oedd yn meddu ar gymhwyster addysgu, "yn brin iawn". Roedd y diffyg hyfforddiant a phrinder tiwtoriaid yn golygu, fel y dywedodd un cyfwelai, bod "cynnal safonau bob amser yn her". Nodwyd hefyd bod Signature (y corff dyfarnu ar gyfer cyrsiau BSL) yn ceisio llunio rhestr o diwtoriaid BSL, ond fel sefydliad Seisnig, nid oedd yn glir pa mor gynhwysfawr fyddai eu sylw o Gymru

5.11. Serch hynny, nododd rhai cyfweleion oherwydd eu bod ar hyn o bryd yn gallu cynnig oriau rhan-amser yn unig i diwtoriaid, byddai cynyddu nifer y cyrsiau'n golygu y byddent yn gallu cynnig mwy o oriau i diwtoriaid presennol. Oherwydd bod rhai tiwtoriaid presennol yn gweithio ar draws amrywiaeth o ardaloedd, mae'n bosibl pe bai'r holl ardaloedd roeddent yn gweithio ynddynt yn gofyn iddynt gyflwyno mwy o oriau, ni fyddent yn gallu ateb y galw cynyddol hwnnw.

5.12. Nid oes gan bob ardal diwtoriaid, ac mae'r anawsterau a nodir gan ardaloedd o ran recriwtio tiwtoriaid yn awgrymu bod ardaloedd nad oes ganddynt diwtoriaid ar hyn o bryd yn debygol o gael trafferth. Mae'n ymddangos yn debygol y bydd yn angenrheidiol hyfforddi nifer o diwtoriaid newydd sydd â chymhwyster BSL a'r sgiliau pobl angenrheidiol, ond nad oes ganddynt gymhwyster addysgu ôl-16, i ateb y galw o ran unrhyw gynnydd yn y ddarpariaeth.

5.13. Yn fwy cadarnhaol, mae cynnydd yn y ddarpariaeth yn debygol o olygu bod ardaloedd yn gallu cynnig mwy o oriau i diwtoriaid BSL, a allai ei gwneud yn haws recriwtio a chadw tiwtoriaid â chymwysterau priodol. Mae'n bosibl y byddai cynyddu'r galw drwy newidiadau o ran cymhwystra yn gwneud rôl y tiwtor BSL yn fwy cynaliadwy ac yn fwy hyfyw i diwtoriaid, gan helpu i fynd i'r afael â'r prinder presennol o diwtoriaid, ac annog mwy o diwtoriaid i ymuno â'r farchnad. Byddai cynnydd yn y ddarpariaeth hefyd yn ei gwneud yn fwy hyfyw hyfforddi pobl Fyddar nad ydynt yn meddu ar gymwysterau addysgu oedolion, i fod yn diwtoriaid. Gwnaeth y cyfweleion gydweddiad â mathau eraill o sgiliau technegol, fel gwaith saer, lle roedd yn gyffredin hyfforddi pobl â'r sgiliau technegol (a phobl) sy'n ofynnol, ond nad oedd ganddynt gymwysterau a phrofiad ym maes addysgu oedolion. Disgrifiwyd, er enghraifft, sut y gallent gofrestru darpar diwtoriaid ar y cymhwyster Paratoi i Addysgu yn y Sector Dysgu Gydol Oes (PTLLS*)* (yr enw cyffredin ar lafar amdano yw "Petals").

5.14. Er mwyn sicrhau'r gwerth mwyaf posibl mewn darpariaeth BSL, gallai fod yn bosibl hefyd i flaenoriaethu lleoedd ar gyrsiau ar gyfer y rhai sy'n dysgu BSL i gyfathrebu â phlentyn neu oedolyn B/byddar. Byddai hyn yn golygu y gellid cynyddu nifer y dysgwyr sy'n dysgu i gefnogi plentyn neu oedolyn B/byddar heb gynyddu cyfanswm nifer y dysgwyr BSL (neu ddarpariaeth BSL).

5.15. Byddai lefel y cynnydd yn y galw, ac felly'r cynhwysedd ychwanegol sydd ei angen i ateb y galw hwnnw, yn dibynnu ar nifer o ffactorau gan gynnwys:

- Pa mor dynn oedd y meini prawf cymhwystra (ac felly nifer y bobl a oedd yn gymwys).
- Y gweithgarwch ymgysylltu (gan gynnwys marchnata) a wneir.
- Y cymorth a gynigir i ddysgwyr i'w helpu i oresgyn rhwystrau fel gofal plant a thrafnidiaeth.
- Hyblygrwydd y ddarpariaeth (e.e. o ran dyddiadau dechrau, pryd y cawsant eu cynnal, fel nosweithiau a phenwythnosau, dwyster a hyd y cyrsiau).
- Y posibilrwydd o gael mynediad i gyrsiau heb eu hachredu, a allai fod yn llai heriol ac yn fwy deniadol i ddysgwyr sy'n dymuno cyfathrebu â phlentyn neu oedolyn B/byddar.

5.16. Mae'r amcangyfrifon o nifer y rhieni/gofalwyr newydd plant B/byddar a amlinellwyd yn adran 4, yn awgrymu y byddai'r cynnydd cyffredinol yn y galw yn fach o ran cyfanswm y cynnydd yn nifer y dysgwyr os, fel y mae'n ymddangos yn rhesymol tybio, na fydd pawb sy'n gymwys yn manteisio ar y cynnig.

**Costau dynodi BSL yn sgil cyfathrebu hanfodol**

5.17. Byddai goblygiadau cost dynodi BSL yn sgil hanfodol yn dibynnu ar yr effaith ar y galw sydd, fel yr amlinellwyd uchod, yn dibynnu ar nifer o ffactorau, y mae'n anodd mesur neu amcangyfrif eu heffaith. Mae tabl 5.1. yn rhoi amcangyfrif o'r galw cynyddol yn seiliedig yn unig ar y gwahaniaeth rhwng nifer presennol y dysgwyr yr amcangyfrifir eu bod yn rhieni neu ofalwyr a chyfanswm nifer y rhai yr amcangyfrifir eu bod yn gymwys.

**Tabl 5.1. Amcangyfrif o'r gwahaniaeth rhwng nifer presennol y dysgwyr sy'n rhieni neu ofalwyr ar lefelau 1 a 2 a nifer y dysgwyr sy'n rhieni neu ofalwyr a fyddai'n gymwys pe bai BSL yn cael ei dynodi'n sgil cyfathrebu hanfodol**

| Lefel | # presennol y dysgwyr | Amcangyfrif lleiaf o # y dysgwyr cymwys | Y gwahaniaeth rhwng y # presennol a # amcangyfrifedig y dysgwyr (isafswm) | Amcangyfrif uchaf o # y dysgwyr cymwys | Gwahaniaeth rhwng y # presennol a # amcangyfrifedig y dysgwyr (uchafswm) |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | 90 | 126 | 36 | 280 | 190 |
| 2 | 30 | 126 | 96 | 280 | 250 |

5.18. Fel yr awgrymir gan dabl 5.1, er y byddai'r cynnydd cyffredinol yn y galw a nifer y dysgwyr yn gymharol fach mewn termau absoliwt (ar y mwyaf 440 ar lefelau 1 a 2), gallai'r effaith ar gostau fod yn eithaf uchel. Cyfrifir y gost fesul dysgwr ar sail wyth person fesul cwrs. Amlinellir y costau hyn yn nhabl 5.2. Rhoddir amcangyfrif yn seiliedig ar y cynnydd posibl yn y galw (a amlinellwyd uchod) a chost cyflwyno cyrsiau (a amlinellwyd yn adran 3) yn nhabl 5.3. Mae'r amcangyfrifon yn defnyddio'r gost fesul awr (£50-£80/awr) ac yn tybio y byddai angen 60 awr ar gyfer cwrs lefel 1 ac y byddai angen 100 awr ar gyfer cwrs lefel 2.

**Tabl 5.2. Amcangyfrif o gyfanswm y gost fesul dysgwr ar gyfer cwrs lefel 1 a lefel 2**

| Lefel | Cyfanswm # yr oriau | Amcangyfrif o'r gost fesul awr | Amcangyfrif o gyfanswm cost y cwrs | Amcangyfrif o'r gost fesul dysgwr (os oes 8 o bobl fesul cwrs) |
|---|---|---|---|---|
| 1 | 60 | £50-£80 | £3,000-£4,800 | £375-£600 |
| 2 | 100 | £50-£80 | £5,000-£8,000 | £625-£1000 |

**Tabl 5.3. Amcangyfrif o'r gost o ddynodi BSL yn sgil hanfodol**

| Lefel | Amcangyfrif o'r gost fesul dysgwr (os oes 8 o bobl fesul cwrs) | Amcangyfrif isel o # y dysgwyr cymwys ychwanegol | Cyfanswm y gost ychwanegol (yn seiliedig ar amcangyfrif isel o # y dysgwyr cymwys ychwanegol) | Amcangyfrif uchel o # y dysgwyr cymwys | Cyfanswm y gost ychwanegol (yn seiliedig ar amcangyfrif uchel o # y dysgwyr cymwys ychwanegol) |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | £375-£600 | 36 | £13,500-£21,600 | 190 | £71,250-£118,750 |
| 2 | £625-£1000 | 96 | £60,000-£96,000 | 250 | £156,250-£250,000 |

5.19. Mae'n bwysig cofio bod yr amcangyfrifon hyn yn cynnwys ystod fawr ac maent yn ddibynnol iawn ar ddilysrwydd nifer mawr o ragdybiaethau. Gallai effaith rhagdybiaethau anghywir (e.e. o ran nifer y dysgwyr sydd ar hyn o bryd yn rhieni neu'n ofalwyr plant B/byddar) raeadru drwy'r cyfrifiadau, gan effeithio ar nifer o gyfrifiadau dilynol, fel y cynnydd yn nifer y dysgwyr cymwys, yn seiliedig arnynt.

5.20. Fel yr amlinellwyd yn adran 3, cododd rhai darparwyr bryderon hefyd nad oedd y model cyllido presennol yn adlewyrchu'n llawn gostau cyflwyno cyrsiau BSL. Mae hwn yn fater ar wahân i effaith dynodi BSL yn sgil hanfodol, ond mae'n awgrymu y byddai unrhyw ehangu ar ddarpariaeth BSL yn arwain at alwadau gan y sector am fwy o gyllid.

**Tystiolaeth o Loegr a'r Alban**

5.21. Fel yr amlinellwyd yn adran 1, mae Cynllun Cenedlaethol BSL yr Alban (2017-23) yn rhoi'r cymorth sydd ei angen ar rieni, y mae eu plentyn yn cael diagnosis B/byddar neu Fyddar, i ddysgu BSL (Llywodraeth yr Alban, 2017). Fodd bynnag, nid yw'r Alban wedi dynodi BSL fel “sgil hanfodol”. Mewn trafodaethau gyda chynrychiolydd o Lywodraeth yr Alban, amlygwyd ei bod yn rhy gynnar i wneud sylwadau ar effaith y polisi hwn; fodd bynnag, roedd arwyddion bod diffyg cynhwysedd (h.y. athrawon a thiwtoriaid BSL) i gyflwyno'r cynllun yn effeithiol, ac o ganlyniad roedd cynlluniau i fynd i'r afael â'r diffyg cynhwysedd hwn. Mae hyn yn awgrymu (yn unol â'r dadansoddiad a amlinellwyd uchod) y byddai'r galw yn cynyddu pe bai hawl rhieni neu ofalwyr i ddysgu BSL yn cael ei hymestyn yng Nghymru, a bod y galw hwn yn debygol o fod yn fwy na'r cynhwysedd.

5.22. Nid oes ymrwymiad cyfatebol yn Lloegr (i'r un yn yr Alban). Awgrymodd trafodaethau gyda chynrychiolydd o Loegr sefyllfa debyg i Gymru o ran bod lefel y ddarpariaeth yn seiliedig i raddau helaeth ar ganfyddiad darparwyr (h.y. SAB ac awdurdodau lleol) o'r galw a dichonoldeb cyflwyno cyrsiau (oherwydd e.e. ystyried costau, cynhwysedd a chyllid).

## 6. Casgliadau

### Y galw presennol am gyrsiau BSL yng Nghymru a'r ddarpariaeth a'r cyllid ar eu cyfer

6.1. Mae'r ddarpariaeth BSL yn fylchog ledled Cymru. Mae'r ddarpariaeth yn cael ei hysgogi'n fwy gan argaeledd cyllid (gan gynnwys dehongliadau darparwyr o'r hyn y gellir ei gyllido) a hefyd argaeledd tiwtoriaid cymwys priodol, yn hytrach na'r galw. Mae hyn yn cynyddu'r risg na all rhieni, gofalwyr neu oedolion sy'n dymuno dysgu BSL i gyfathrebu â phlentyn neu bartner B/byddar ddod o hyd i gwrs am ddim a/neu gwrs ar adeg ac mewn lle sy'n gyfleus iddynt.

6.2. Amcangyfrifir bod tua dwy ran o dair o'r dysgwyr presennol yn bobl sy'n dysgu BSL er mwyn gwella eu rhagolygon cyflogaeth ac mae tua un rhan o dair yn rhieni neu ofalwyr sy'n dymuno dysgu BSL i gyfathrebu â phlentyn B/byddar.

6.3. Mae toriadau mewn cyllid ôl-16 wedi cyfrannu at leihad mewn darpariaeth BSL dros y pum mlynedd ddiwethaf. Ar hyn o bryd, roedd tua hanner yr holl gyrsiau BSL i oedolion yn cael eu cyllido'n llawn gan Lywodraeth Cymru ac roedd 40 y cant yn cael eu cyllido'n rhannol gan Lywodraeth Cymru.

### Dichonoldeb dynodi BSL fel sgil cyfathrebu hanfodol

6.4. Roedd cefnogaeth sylweddol ar draws y rhanddeiliaid y cyfwelwyd â nhw ar gyfer yr achos dros ddynodi BSL yn sgil cyfathrebu hanfodol. Fodd bynnag, mae hyn yn peri rhai heriau ymarferol, yn enwedig o ran sut y gellid diffinio a gorfodi meini prawf cymhwystra.

6.5. Mae'n anodd iawn amcangyfrif yn fanwl pa effaith y byddai dynodi BSL fel sgil hanfodol yn ei chael ar y galw am ddarpariaeth BSL neu ar gostau. Mae ein hamcangyfrifon yn awgrymu y byddai cyfanswm y cynnydd mewn dysgwyr ar lefelau 1 a 2 sy'n gymwys i fanteisio ar y ddarpariaeth, ond nad ydynt yn manteisio ar y ddarpariaeth ar hyn o bryd, yn gymharol fach mewn termau absoliwt (tua 130-440 o ddysgwyr newydd y flwyddyn). Gallai cyfanswm y costau fod yn eithaf uchel hefyd (mae ein hamcangyfrifon yn amrywio o tua £70,000 i £350,000 y flwyddyn). Fodd bynnag, mae'n rhesymol tybio na fyddai pawb sy'n gymwys i ddysgu yn manteisio ar eu hawl, sy'n golygu y byddai'r cynnydd yn y galw, a'r costau, yn is na'r amcangyfrifon hyn. Yn yr un modd, mae'n bosibl y bydd galw cronedig o blith rhieni neu ofalwyr presennol plant B/byddar, o ystyried

prinder y ddarpariaeth mewn rhai ardaloedd. Mae'n bwysig cofio bod yr amcangyfrifon hyn yn cynnwys ystod fawr ac maent yn ddibynnol iawn ar ddilysrwydd nifer mawr o ragdybiaethau.

6.6. Mae hefyd yn anodd asesu a oes cynhwysedd, o ran nifer digonol o diwtoriaid sy'n gallu ateb y galw a'r ddarpariaeth gynyddol. Yn gyffredinol, roedd yr ardaloedd sydd â thiwtoriaid BSL yn teimlo y byddai'r tiwtoriaid yn barod i gymryd mwy o oriau ac yn gallu gwneud hynny. Fodd bynnag, mae'r anawsterau y mae rhai ardaloedd yn eu nodi o ran recriwtio tiwtoriaid yn awgrymu bod ardaloedd nad oes ganddynt diwtoriaid ar hyn o bryd yn debygol o gael anhawster. Mae’n ymddangos yn debygol y bydd angen hyfforddi nifer o diwtoriaid newydd sydd â chymhwyster BSL a'r sgiliau pobl angenrheidiol, ond nad oes ganddynt gymhwyster addysgu ôl-16, i fodloni unrhyw gynnydd yn y ddarpariaeth, yn enwedig mewn ardaloedd lle nad oes tiwtor ar hyn o bryd.

6.7. Yn olaf, mae'n werth nodi bod yr adolygiad wedi canolbwyntio ar BSL a gyflwynir fel cymhwyster ffurfiol i oedolion. Nododd rhai cyfweleion y gall fod achos hefyd dros fodelau mwy anffurfiol o ddysgu i rieni a gofalwyr, efallai nad oes arnynt angen neu eisiau trylwyredd a strwythur cyrsiau achrededig, a/neu fodelau o ddysgu fel teulu (fel I-Sign, a drafodwyd yn adran 1), lle mae rhieni neu ofalwyr yn dysgu ochr yn ochr â'u plant.

## 7. Argymhellion

7.1. Mae'r adolygiad yn nodi achos *prima facie* (credadwy, ond heb ei brofi eto) ar gyfer dynodi BSL yn sgìl Cyfathrebu Hanfodol i rieni a gofalwyr plant b/Byddar, o ystyried y cymorth gan y rhanddeiliaid yr ymgynghorwyd â nhw ar gyfer yr adolygiad hwn, a'r dystiolaeth ar y galw tebygol, capasiti (darparwyr dysgu) a'r gost. Fodd bynnag, mae cryn ansicrwydd am effaith hyn ar y galw, capasiti darparwyr a chyllid dysgu ôl-19. At hynny, er ei fod y tu hwnt i gwmpas yr adolygiad hwn, nid yw'n glir ai dyma fyddai'r ffordd fwyaf effeithiol a/neu effeithlon o sicrhau y gall rhieni a gofalwyr gyfathrebu â phlant b/Byddar. Er enghraifft, gallai dysgu mwy anffurfiol (darpariaeth heb ei hachredu) a/neu ddysgu fel teulu fod yn briodol, ond efallai na fyddai'n cael ei gwmpasu gan gyllid ar gyfer BSL fel sgìl Cyfathrebu Hanfodol.

**Argymhelliad 1.** Bydd angen i Lywodraeth Cymru benderfynu ai dynodi BSL fel sgìl Cyfathrebu Hanfodol yw'r ffordd fwyaf effeithlon ac effeithiol o sicrhau y gallai rhieni a gofalwyr gyfathrebu â phlant b/Byddar

**Argymhelliad 2.** Pe bai BSL yn cael ei ddynodi yn sgìl Cyfathrebu Hanfodol i rieni a gofalwyr plant b/Byddar, bydd angen i Lywodraeth Cymru sicrhau bod darparwyr dysgu yn cael digon o amser i baratoi i gynyddu capasiti (e.e. drwy recriwtio a hyfforddi tiwtoriaid) a rhoi cyhoeddusrwydd i gyrsiau a'u marchnata ar gyfer rhieni a gofalwyr, er mwyn bodloni'r galw a ragwelir.

**Argymhelliad 3.** Pe bai BSL yn cael ei ddynodi'n sgìl Cyfathrebu Hanfodol i rieni a gofalwyr plant b/Byddar, o ystyried yr ansicrwydd am ragolygon yr adolygiad o ran y galw, capasiti a chostau, dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod monitro a gwerthuso cadarn o effaith hyn ar y galw, capasiti a chost.

**Argymhelliad 4.** Pe bai BSL yn cael ei ddynodi'n sgìl Cyfathrebu Hanfodol i rieni a gofalwyr plant b/Byddar, bydd angen i Lywodraeth Cymru roi ystyriaeth ofalus i sut y mae meini prawf cymhwysedd yn cael eu diffinio a'u gorfodi.

**Argymhelliad 5.** Pe bai BSL yn cael ei ddynodi'n sgìl Cyfathrebu Hanfodol i rieni a gofalwyr plant b/Byddar, o ystyried y pwysau presennol ar gyllid dysgu ôl-19, dylai Llywodraeth Cymru ystyried sicrhau darparu arian ychwanegol i dalu costau unrhyw gynnydd mewn darpariaeth dysgu BSL ôl-19.

**Argymhelliad 6.** Pe bai BSL yn cael ei ddynodi'n sgìl Cyfathrebu Hanfodol i rieni a gofalwyr plant b/Byddar, dylai Llywodraeth Cymru hefyd ystyried ei ddynodi'n sgìl Cyfathrebu Hanfodol i grwpiau eraill, yn enwedig oedolion byddar. Roedd hyn y tu hwnt i gwmpas yr adolygiad hwn a byddai angen cwmpasu pellach.

## 8. Llyfryddiaeth

Action on Hearing Loss. d.d. The Equality Act. 2010. (Fel ar: 28 Awst, 2019)

Batterbury, S., Dickinson, M., Robinson, H., Sutherland., a West, D. 2010. Signing first: evaluation of I-Sign: the BSL Pilot project. (Fel ar: 28 Awst 2019)

Cymdeithas Pobl Fyddar Prydain (BDA). 2014. Legal Status for BSL and ISL: Discussion Paper. (Fel ar: 2 Ebrill 2019).

Cymdeithas Pobl Fyddar Prydain (BDA). d.d. *Help and Resources.* (Fel ar: 2 Ebrill 2019).

Cymdeithas Awdioleg Prydain (BSA). 2018. *Recommended Procedure: Pure-tone air-conduction and boneconduction threshold audiometry with and without masking*. Cymdeithas Awdioleg Prydain: Bathgate.

Champion, J. 2018. *Briff Ymchwil:Hysbysiad hwylus ar gyllid addysg ôl-16*. Cynulliad Cenedlaethol Cymru: Caerdydd.

Comisiynydd Plant Cymru. 2017. *Blwyddyn o Newid 2016-17: Comisiynydd Plant Cymru: Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon*. (Fel ar: 2 Ebrill 2019).

Cormier, K., Schembri, A., Vinson, D., ac Orfanidou, E. 2012. First language acquisition differs from second language acquisition in prelingually deaf signers: Evidence from sensitivity to grammaticality judgement in British Sign Language. *Cognition*, *124*(1), 50-65.

Consortium Ymchwil mewn Addysg i'r Byddar (CRIDE). 2018. *Adroddiad Cymru 2018: Adroddiad CRIDE ar arolwg 2017/18 ar ddarpariaeth addysgol i blant byddar yng Nghymru.* (Fel ar: 3 Mai 2019).

Adran Gwaith a Phensiynau (DWP). 2017. *Market review of British Sign Language and communications provision for people who are deaf or have hearing loss*. DWP.

Deddf Hawliau Dynol. 1998. C. 42. (Fel ar: 2 Ebrill 2019).

Kuhl, P. K. 2010. Brain mechanisms in early language acquisition. *Neuron*, *67*(5), 713-727.

Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) Lloegr. 2016. GP Patient Survey 2015. (Fel ar: 2 Ebrill 2019).

Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011. (Fel ar: 7 Gorffennaf 2019).

Signature. d.d. *British Sign Language*. (Fel ar: 5 Ebrill 2019)

Llywodraeth yr Alban. 2017. *Scottish Government British Sign Language (BSL) National Plan 2017-2023*. Llywodraeth yr Alban: Caeredin.

Senedd yr Alban. 2015. *Education and Culture Committee: 4th Meeting, 2015 (Session 4).* (Fel ar: 2 Ebrill 2019).

StatsCymru. 2017. *Genedigaethau byw yn ôl ardal ac oedran y fam*. (Fel ar: 5 Ebrill 2019).

StatsCymru. 2019. *Amcangyfrifon o'r boblogaeth yn ôl awdurdod lleol ac oedran*. (Fel ar: 5 Ebrill 2019).

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). 2007. *General comment No. 9 (2006): The rights of children with disabilities*. (Fel ar: 2 Ebrill 2019).

Llywodraeth Cymru (LlC). 2017a. *Dysgu Oedolion yng Nghymru*. (Fel ar: 2 Ebrill 2019).

Llywodraeth Cymru (LlC). 2017b. *Amcanestyniadau poblogaeth cenedlaethol*. (Fel ar: 5 Ebrill 2019)

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. (Fel ar: 7 Ebrill 2019).